ADRODDIAD AR DDYFARNIAD TGAU SAESNEG IAITH HAF 2018

Medi 2018

CYNNWYS

1. Rhagair
2. Crynodeb gweithredol
3. Cefndir
4. Pryderon a godwyd gyda ni
5. Sut yr aethom ati i gynnal yr adolygiad
6. Pennu safonau yn y cymwysterau TGAU newydd
7. Y broses ddyfarnu
8. Dyfarniad TGAU Saesneg Iaith Haf 2018
9. Dadansoddiad o'r canlyniadau
10. Casgliadau
11. Edrych ymlaen

Atodiad 1: Trosolwg o'r cymhwyster TGAU Saesneg Iaith newydd
Atodiad 2: Canlyniadau cymaradwy
Atodiad 3: Ffiniau graddau
Atodiad 4: Effaith 'sawtooth'
Atodiad 5: Methodoleg rhagfynegi ystadegol
Atodiad 6: Rhestr termau

1. Rhagair

Sefydlwyd Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau nad ydynt yn raddau ym mis Medi 2015. Rydym yn gyfrifol am gynnal safonau dros amser mewn cymwysterau megis TGAU, ac rydym yn ystyried bod hyn yn un o'r agweddau craidd ar ein gwaith. Ein prif nodau yw sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau, yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol myfyrwyr ac yn hybu hyder y cyhoedd.

Gellir dehongli'r gair 'safonau' mewn sawl ffordd. Mae safonau yn seiliedig ar egwyddor tegwch. Yn y pen draw, mae cynnal safonau yn sicrhau bod y gwerth a roddir ar y radd a gaiff ei dyfarnu i fyfyriwr yn aros yn ddigyfnewid o'r un flwyddyn i'r llall. Er enghraifft, dylai canlyniad gradd C mewn unrhyw bwnc penodol fod mor debyg â phosibl o ran y ffordd y mae'n adlewyrchu cyrhaeddiad myfyrwyr o un flwyddyn i'r llall.

Mae'n hollbwysig cynnal un safon ar lefel genedlaethol - mae hyn yn sicrhau tegwch i fyfyrwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Ar lefel genedlaethol, gall y broses ddyfarnu ystyried ffactorau megis dosbarthiad oedran a'i nod yw sicrhau sefydlogrwydd. Gellir darparu ar gyfer amrywiadau ar y lefel hon drwy gydbwyso tystiolaeth ystadegol yn ofalus a thrwy farn uwch arholwyr wrth bennu ffiniau graddau.

Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar newidiadau mewn canlyniadau yn lleol. Mae'r rhain yn cynnwys: gallu cyffredinol y grŵp blwyddyn, penderfyniadau ynghylch cofrestru ymgeiswyr ar gyfer arholiadau, pa mor gyfarwydd yw'r cymhwyster, a sut y caiff cwrs ei addysgu. Gall yr holl ffactorau hyn, ac eraill, arwain at newidiadau yng nghanlyniadau ysgol o un flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, mae newidiadau ar lefel leol fel arfer yn diddymu ei gilydd o gyfuno'r canlyniadau. Bydd y rhain, at ei gilydd, yn rhoi canlyniadau sefydlog ar lefel genedlaethol.

Mae'r broses ddyfarnu, sy'n pennu ffiniau graddau ac yn cynnal safonau, yn un gymhleth. Maes arbenigol ydyw, ac nid yw bob amser yn hawdd ei ddeall na'i gyfleu, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o dystiolaeth ystadegol a thystiolaeth sy'n seiliedig ar farn.

Gan fod y broses yn un gymhleth, mae cryn dipyn o gamddeall ar y ffordd y mae'n gweithio, er enghraifft bod cwotâu sefydlog o raddau penodol ar gael ym mhob cyfres o arholiadau. Nid yw hynny'n wir. Nid oes unrhyw derfyn ar faint o raddau penodol a ddyfernir mewn unrhyw flwyddyn benodol na'r gyfran ohonynt – pennu disgwyliadau, yn hytrach na therfynau, a wna'r dull 'canlyniadau cymaradwy' o ddyfarnu.

Eleni, codwyd pryderon gyda ni ynghylch lle mae ffin gradd C ar gyfer TGAU Saesneg Iaith wedi cael ei phennu. Yn haf 2018, pennwyd ffin gradd C ar 55% o gyfanswm y marciau a oedd ar gael ar gyfer y cymhwyster, o gymharu â 50% yn haf 2017 a 51% ym mis Tachwedd 2017.

Fel y rheoleiddiwr, gwnaethom fonitro cyfarfod CBAC lle y pennwyd y ffiniau gradd ar gyfer dyfarniad eleni. Gwelwyd bod y dyfarniad yn cydymffurfio â'n gofynion a bod canlyniadau'r dyfarniad yn unol â'n disgwyliadau. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r pryderon a godwyd ynglŷn â ffiniau graddau ac effaith bosibl newidiadau mewn patrymau cofrestru, gwnaethom benderfynu edrych unwaith eto ar ddyfarniad a chanlyniadau eleni. Wrth wneud hynny, aethom ati i edrych ar wybodaeth ychwanegol nad oedd ar gael ar adeg dyfarnu, gan gadw meddwl agored o ran yr hyn y gallai'r dystiolaeth hon ei ddweud wrthym.

Bwriedir i'r adroddiad hwn fod yn ymateb cynhwysfawr i'r rhai sydd wedi codi eu pryderon gyda ni. Mae'n cynnwys manylion am yr adolygiad, gan gynnwys y dystiolaeth a ystyriwyd gennym a gwybodaeth ynglŷn â'r ffordd y caiff ffiniau graddau eu pennu. Rydym yn ei gyhoeddi er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn gwbl dryloyw ac er mwynrhannu ein canfyddiadau gyda'r rhai sydd â phryderon nad ydynt wedi'u mynegi.

Philip Blaker
Prif Weithredwr
Medi 2018

2. Crynodeb gweithredol

Yng Nghymru yr haf hwn, dyfarnwyd 271,761 o gyrsiau TGAU llawn amser, gan gynnwys TGAU Saesneg Iaith. Roedd y cymhwyster hwn yn un o 21 o gymwysterau TGAU diwygiedig a ddyfarnwyd. Cyhoeddwyd y canlyniadau ar 23 Awst 2018 ac roeddent yn eithaf sefydlog ar y cyfan.

Ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, cysylltodd rhai ysgolion, awdurdodau lleol ac un consortiwm addysg rhanbarthol yn y gogledd â ni i godi pryderon ynglŷn â'r ffiniau gradd ar gyfer TGAU Saesneg Iaith. Fel y rheoleiddiwr, aethom ati i ymchwilio i hyn ar fyrder.

Roedd y pryderon yn ymwneud ag effaith pennu ffin gradd C yn haf 2018 ar farc uwch nag mewn dyfarniadau blaenorol. Roedd y rhai a gysylltodd â ni yn amau a ellid cyfiawnhau ffin gradd haf 2018 ac yn gofyn a oedd wedi'i hystumio gan effaith y lefelau uchel iawn o gofrestru cynnar yn 2017.

Gan gadw egwyddor sicrhau tegwch i fyfyrwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol mewn cof, adolygwyd dyfarniad TGAU Saesneg Iaith yr haf hwn er mwyn ymchwilio i'r canlynol:

- **p'un a oedd y safonau ar gyfer y cymhwyster wedi cael eu cynnal yn unol â'r gyfres flaenorol o arholiadau.**

- **p'un a oedd myfyrwyr a safodd y cymhwyster am y tro cyntaf yr haf hwn o dan anfantais annheg o'u cymharu â'r rhai a safodd y cymhwyster y llynedd.**

Ar ôl adolygu dyfarniad yr haf hwn, ein casgliadau yw:

- **bod y safon genedlaethol ar gyfer TGAU Saesneg Iaith wedi cael ei chynnal yn nyfarniad haf 2018.**

- **nad oes unrhyw dystiolaeth bod dyfarniad TGAU Saesneg Iaith yn haf 2018 wedi rhoi myfyrwyr a safodd y cymhwyster am y tro cyntaf o dan anfantais annheg o'u cymharu â'r rhai a safodd y cymhwyster yn 2017.**

- **ein bod yn hyderus bod cyflawniadau myfyrwyr wedi cael eu cydnabod yn deg. Gall defnyddwyr ddibynnu ar y ffaith bod y graddau a ddyfarnwyd yn haf 2018 yn cyfateb i'r rhai a ddyfarnwyd yn 2017.**

Ar sail y casgliadau hyn, nid oes unrhyw reswm dros ailystyried dyfarniad TGAU Saesneg Iaith ar gyfer haf 2018.

Canfu ein dadansoddiad o ganlyniadau yn ôl arfer cofrestru ar lefel canolfan fod tystiolaeth o berthynas ystadegol rhwng arfer cofrestru canolfannau a chanlyniadau. Fodd bynnag, mae'r berthynas yn amrywio rhwng graddau. Nid oedd y berthynas â chanlyniadau yn gyson, hyd yn oed ar gyfer canolfannau a oedd yn defnyddio strategaethau cofrestru tebyg. Mae ffactorau eraill, yn ychwanegol at arfer cofrestru, hefyd yn dylanwadu ar ganlyniadau ar lefel canolfan.

Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y berthynas hon o ganlyniad i gymhwyso safonau anghyson ar draws cyfresi arholiadau gwahanol. Fodd bynnag, mae'n dangos nad yw'r gwahaniaethau na'r newidiadau sylweddol yn strategaethau cofrestru canolfannau dros y blynyddoedd diwethaf yn sicrhau tegwch i bawb.

Mae'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i annog canolfannau i beidio â chofrestru myfyrwyr yn gynnar yn eang wedi helpu i ostwng y lefelau cofrestru cynnar a welsom haf diwethaf yn sylweddol. Rydym yn croesawu'r datblygiadau hyn gan eu bod yn debygol o arwain at ganlyniadau mwy sefydlog yn y dyfodol a fydd yn helpu i hybu chwarae teg i bob myfyriwr a defnyddiwr cymwysterau.

3. Cefndir

Mae cymhwyster TGAU Saesneg Iaith newydd a luniwyd yn benodol i Gymru. Cafodd ei gyflwyno i'w addysgu am y tro cyntaf yn 2015 ochr yn ochr â chymwysterau TGAU mewn Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg Iaith, Llenyddiaeth Gymraeg, Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd[1]. CBAC yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau TGAU diwygiedig hyn yng Nghymru.

Mae'r cymhwyster TGAU Saesneg Iaith newydd yn wahanol iawn i'r cymhwyster a'i ragflaenodd, o ran strwythur a chynnwys. Cymhwyster nad yw'n haenog ydyw, sy'n golygu bod pob myfyriwr yn sefyll yr un papur arholiad, ni waeth pa radd y mae'n anelu ati. Mae hefyd yn gymhwyster llinol, sy'n golygu bod yn rhaid i'r myfyrwyr sefyll eu harholiadau i gyd gyda'i gilydd, ar ddiwedd y cwrs.

Mae tair uned i'r cymhwyster. Mae Uned 1 yn asesu sgiliau siarad a gwrando (y cyfeirir atynt fel llafaredd) ac mae'n cyfrannu 20% tuag at y radd derfynol. Mae Unedau 2 a 3 yn asesu sgiliau darllen ac ysgrifennu (mewn ffyrdd gwahanol) ac mae pob un yn cyfrannu 40% tuag at y radd derfynol. Ceir rhagor o fanylion am yr unedau hyn yn Atodiad 1, ynghyd â dolen i fanyleb y cymhwyster.

Dyfarnwyd TGAU Saesneg Iaith am y tro cyntaf yn haf 2017. Ym mis Tachwedd 2017 cafwyd cyfle i fyfyrwyr sefyll y cymhwyster eto, ar yr amod eu bod eisoes wedi sefyll yr arholiad yn haf 2017.

Gyda sawl cyfres o arholiadau yn ystod y ddwy flynedd y mae myfyrwyr yn astudio TGAU Saesneg Iaith, gall ysgolion gofrestru myfyrwyr ar gyfer mwy nag un gyfres o arholiadau (fel yn achos cymwysterau llinol eraill). Mae'r system hon wedi ei gwneud yn bosibl i gofrestru myfyrwyr ar gyfer arholiadau cyn diwedd Blwyddyn 11 (cofrestru cynnar), ac weithiau sawl gwaith (cofrestru lluosog).

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld y lefelau uchaf erioed o gofrestru cynnar a lluosog yng Nghymru, gydag ysgolion yn cofrestru niferoedd sylweddol o fyfyrwyr i sefyll arholiadau TGAU llinol cyn diwedd Blwyddyn 11.

[1] Dyma'r pynciau TGAU cyntaf i gael eu diwygio.

Ym mis Ionawr 2017, cynhaliwyd ymchwil[2] gennym i'r arfer mwyfwy cyffredin hwn ac argymhellwyd newidiadau i Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau mai buddiannau myfyrwyr yw'r ystyriaeth bennaf.

Mewn ymateb i'n canfyddiadau, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru mai dim ond y radd gyntaf a ddyfernir i fyfyriwr sy'n cyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgol (roedd y polisi blaenorol yn caniatáu i ysgolion gyfrif y radd orau a enillwyd gan ddisgybl ar ôl sefyll yr arholiad sawl gwaith). Daeth y polisi newydd hwn i rym o haf 2018 (ar gyfer haf 2019) ac arweiniodd at newid sylweddol yn nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU Saesneg Iaith yn haf 2018 o gymharu â haf 2017.

Cafwyd gostyngiad sylweddol (96%) o ran cofrestriadau Blwyddyn 10 yn ogystal â gostyngiad (34%) o ran cofrestriadau Blwyddyn 11 (roedd llawer ohonynt wedi sefyll yr arholiad yn haf 2017 ac ym mis Tachwedd 2017). Roedd y gostyngiadau hyn yn nifer y cofrestriadau Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn golygu bod cyfran uwch o ganlyniadau TGAU Saesneg Iaith yr haf hwn ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 12 ac uwch a oedd yn ailsefyll y cymhwyster.

Ffigur 3.1 Cofrestriadau TGAU Saesneg Iaith yn ôl oedran



[2] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/tgau-a-safon-uwch/tgau/cofrestru-cynnar-tgau/

4. Pryderon a godwyd gyda ni

Cyhoeddwyd canlyniadau TGAU 2018 i Gymru a gweddill y DU gan fyrddau arholi ar 23 Awst 2018. Yng Nghymru, gwelwyd newidiadau sylweddol yn y patrymau cofrestru ar gyfer arholiadau'r haf hwn a dyfarnwyd sawl cymhwyster TGAU newydd am y tro cyntaf.

Ar 28 Awst, gwnaeth GwE[3] (y gwasanaeth gwella ac effeithiolrwydd ysgolion ar gyfer gogledd Cymru) gysylltu â ni, er mwyn tynnu ein sylw at bryderon a godwyd gan ysgolion yn ei ranbarth ynglŷn â dyfarnu'r cymhwyster TGAU Saesneg Iaith. Yn ystod yr wythnosau dilynol, gwnaeth rhai awdurdodau lleol a sawl pennaeth ysgol uwchradd yn y gogledd gyfathrebu'n uniongyrchol â ni er mwyn mynegi pryderon tebyg.

Roedd y pryderon yn ymwneud ag effaith pennu ffin gradd C yn haf 2018 ar farc uwch nag mewn cyfresi blaenorol ar ganlyniadau myfyrwyr.

Yn benodol, y pryderon oedd:

- bod cyfanswm nifer y marciau yr oedd ei angen i ennill gradd C yn haf 2018, o gymharu â haf 2017, yn rhy uchel. Yn haf 2018, pennwyd ffin gradd C ar 220 o farciau (allan o gyfanswm o 400 o farciau), yn haf 2017, pennwyd ffin gradd C ar 200 o farciau ac ym mis Tachwedd 2017, pennwyd ffin gradd C ar 204 o farciau.

- ei bod yn bosibl bod y marc uwch hwn ar gyfer ffin gradd C wedi rhoi myfyrwyr 16 oed a safodd y cymhwyster am y tro cyntaf yn haf 2018 o dan anfantais, o'u cymharu â'r myfyrwyr hynny a gafodd eu cofrestru'n gynnar ar gyfer y cymhwyster yn 2017, pan oedd marc ffin gradd C yn is.

- bod effaith negyddol o bosibl ar ganlyniadau ysgolion nad oeddent wedi cofrestru ymgeiswyr yn gynnar yn 2017 o'u cymharu ag ysgolion a oedd wedi cofrestru ymgeiswyr yn gynnar.

Roeddem wedi monitro'r broses ddyfarnu a chanlyniadau TGAU Saesneg Iaith yr haf hwn yn fanwl ac nid oeddem yn ymwybodol o unrhyw achos pryder penodol[4]. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan GwE, penderfynwyd ailedrych ar

[3] Un o'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol yng Nghymru.
[4] Amlinellwn ein dull o fonitro dyfarniadau TGAU yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

ddyfarniad yr haf hwn. Gwnaethom sicrhau ein bod yn ystyried yr holl sylwadau a anfonwyd atom gan ysgolion ac awdurdodau lleol fel rhan o'r gwaith hwn.

5. Sut yr aethom ati i gynnal yr adolygiad

Ein nodau cyffredinol wrth gynnal yr adolygiad hwn oedd:

- deall natur y pryderon a godwyd gan ysgolion ac eraill a'r sail drostynt.
- esbonio sut y dyfarnwyd TGAU Saesneg Iaith yr haf hwn.
- nodi unrhyw faterion a chymryd camau'n gyflym i ymdrin â nhw.
- nodi p'un a oes unrhyw gwestiynau ehangach neu feysydd gwaith pellach i ni ac eraill.

Aethom ati i geisio ymchwilio i'r canlynol:

- p'un a yw'r safonau ar gyfer y cymhwyster wedi cael eu cynnal yn unol â chyfresi blaenorol o arholiadau, yn benodol:
    - bod y cymhwyster wedi cael ei ddyfarnu'n briodol a bod ffiniau graddau wedi cael eu pennu yn unol â'n gofynion rheoleiddio.
    - bod ffiniau graddau eleni yn adlewyrchu safon gymaradwy â dyfarniadau blaenorol.
- p'un a oedd y myfyrwyr a safodd y cymhwyster am y tro cyntaf yn 2018 wedi cael eu rhoi o dan anfantais annheg o'u cymharu â'r rhai a safodd y cymhwyster yn 2017, yn benodol:
    - p'un a oedd canlyniadau ar lefel canolfan yn sylweddol wahanol yn haf 2018 o gymharu â blynyddoedd blaenorol.
    - p'un a ymddengys bod unrhyw wahaniaethau o ran canlyniadau canolfannau yn gysylltiedig â chofrestriadau cynnar gan ganolfannau ai peidio.

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd, adolygwyd y dystiolaeth mewn perthynas â dyfarniad TGAU Saesneg Iaith yr haf hwn yn fanwl, gan gynnwys:

- gohebiaeth gan GwE, gan gynnwys rhywfaint o ddata am ganlyniadau TGAU Saesneg Iaith ysgolion yn ei ardal.

- llythyrau gan ysgolion ac awdurdodau lleol yn codi pryderon a chwestiynau ynglŷn â dyfarniad TGAU Saesneg Iaith yr haf hwn.
- adroddiad ein sylwedydd ar y cyfarfod dyfarnu.
- ein Gweithdrefnau Cyfnewid Data ar gyfer haf 2018.
- adroddiad Cadeirydd Arholwyr CBAC.
- adroddiad Swyddog Ystadegau CBAC.
- adroddiad Uwch Arholwyr CBAC.
- yr adroddiad ar ddyfarniad TGAU Saesneg Iaith 2018 y gwnaethom ofyn i CBAC ei baratoi ar gyfer yr adolygiad hwn.
- data gan CBAC:
    - rhagfynegiadau a chanlyniadau a ddarparwyd yn ystod y broses ddyfarnu.
    - data ar amrywiadau canolfannau.
    - cymhariaeth o ganlyniadau ymgeiswyr rhwng cyfresi.
    - dadansoddiad o'r radd orau yn ôl llwybr.
- canlyniadau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan y Cyd-bwyllgor Cymwysterau.

TGAU Saesneg Iaith yw unig ffocws ein hadolygiad a'r adroddiad hwn. Roedd yr ohebiaeth gan ganolfannau atom yn canolbwyntio ar TGAU Saesneg Iaith. Holodd ychydig o ysgolion ynglŷn â dyfarniad cymwysterau TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd hefyd. Fodd bynnag, nid oedd y pryderon hynny'n benodol ac ni wnaethant beri i ni ehangu cwmpas ein hadolygiad er mwyn edrych eto ar y ffordd y dyfarnwyd y cymwysterau hynny.

6. Pennu safonau yn y cymwysterau TGAU newydd

Yn yr adran hon rydym yn esbonio'r dull o gynnal safonau rydym yn gofyn i CBAC ei ddefnyddio wrth ddyfarnu'r cymwysterau TGAU diwygiedig er mwyn sicrhau bod canlyniadau yn dal i fod yn gymaradwy o flwyddyn i flwyddyn.

Ein dull gweithredu

Cafodd chwe chymhwyster TGAU newydd, a luniwyd yn benodol i fyfyrwyr yng Nghymru, eu dyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2017, gan gynnwys TGAU Saesneg Iaith. Ein nod wrth oruchwylio pob cyfres o arholiadau a dyfarniadau yw sicrhau bod safonau'n gyson dros amser. Hynny yw, sicrhau hyd y gellir fod myfyriwr o allu penodol yr un mor debygol o ennill gradd benodol, ni waeth pa gyfres o arholiadau y mae'n ei sefyll. Mae angen i ni ystyried tegwch i fyfyrwyr yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Mae'n rhaid i ni hefyd ystyried anghenion defnyddwyr sy'n dibynnu ar ganlyniadau TGAU ac sy'n disgwyl i raddau adlewyrchu safonau cyrhaeddiad cyson.

Yn ystod y cyfnod hwn o ddiwygiadau, ein blaenoriaeth fu trosglwyddo'r 'safon' o'r cymwysterau etifeddol i'r cymhwyster newydd ac yna'i chynnal dros amser. Gofynnwyd i CBAC ddefnyddio'r dull 'canlyniadau cymaradwy' sefydledig er mwyn sicrhau nad oedd myfyrwyr yn cael mantais nac anfantais am fod ymhlith y cohortau cyntaf i sefyll y cymhwyster newydd[5]. Gall y dull hwn wneud iawn mewn sefyllfaoedd lle gall perfformiad ostwng ychydig ar ôl cyflwyno cymwysterau newydd. Drwy asesu perfformiad, rydym yn golygu nifer y marciau a enillwyd gan fyfyrwyr yn eu hasesiadau yn hytrach na'r radd gyffredinol y mae'r marciau hynny yn cyfateb iddi.

Gall canlyniadau cymaradwy hefyd gael eu defnyddio i ragfynegi'r canlyniadau disgwyliedig ar lefel genedlaethol. Gall y rhagfynegiadau hyn helpu i ddiogelu rhag cynnydd yng nghanran y myfyrwyr sy'n ennill graddau uwch heb dystiolaeth o welliannau gwirioneddol mewn cyrhaeddiad (chwyddiant graddau).

Wrth bennu safonau ar gyfer dyfarnu cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd am y tro cyntaf, rydym ni, ynghyd â'r rheoleiddwyr yn Lloegr (Ofqual) a Gogledd Iwerddon

[5] Rydym yn disgrifio'r dull canlyniadau cymaradwy yn fanylach yn Atodiad 2, gan gynnwys sut y caiff ei ddefnyddio i gynnal safonau wrth i gymwysterau newydd gael eu cyflwyno ac ymsefydlu.

(CCEA), wedi trosglwyddo'r safonau o'r hen gymwysterau. Yn ystod y blynyddoedd i ddod, bydd pob rheoleiddiwr yn annibynnol yn gofyn i gyrff dyfarnu gymhwyso dulliau ar gyfer cynnal safonau graddau dros amser. Mae'r rhain yn seiliedig ar egwyddorion tebyg a sefydledig. Bydd manylion penodol y dull gweithredu ychydig yn wahanol o un wlad i'r llall, gan adlewyrchu'r cohortau sy'n sefyll y cymwysterau, y data sydd ar gael ym mhob gwlad a'r pwyslais gwahanol ar farn arbenigol uwch arholwyr. Rydym ni, ynghyd ag Ofqual a CCEA, yn gweithio gyda'n gilydd i barhau i adolygu ein priod ddulliau o gynnal safonau a sicrhau y rhoddir yr un gwerth ar gymwysterau TGAU ac y cânt eu hasesu'n deg, lle bynnag y cânt eu sefyll.

Lle mae'r cohort o fyfyrwyr sy'n sefyll y cymhwyster yn debyg i flynyddoedd blaenorol, rydym yn disgwyl i'r canlyniadau fod yn debyg. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gwotâu na dyraniadau i'w llenwi ac rydym yn disgwyl gweld ychydig o amrywiad. Os bydd canlyniadau yn amrywio'n fwy na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl fel arfer, rydym yn gofyn am dystiolaeth i gefnogi newid gwirioneddol yng nghyrhaeddiad myfyrwyr. Lle mae byrddau arholi yn rhoi tystiolaeth i ni sy'n cefnogi gwelliant neu, yn wir, ddirywiad yng nghyrhaeddiad myfyrwyr, rydym yn ystyried a yw'r dystiolaeth yn cyfiawnhau'r newid arfaethedig i'r canlyniadau.

Bydd y canlyniadau cymaradwy yn arwain at ganlyniadau tebyg o flwyddyn i flwyddyn os bydd y cohort ar gyfer y pwnc yn aros yn debyg o ran ei allu cyffredinol. Fodd bynnag, pan fydd cymhwyster yn newid, gall fod mwy o amrywioldeb o flwyddyn i flwyddyn nag arfer yng nghanlyniadau ysgolion a cholegau unigol am eu bod, o bosibl, wedi defnyddio dulliau gwahanol o gyflwyno'r cymhwyster newydd. Gall yr amrywioldeb hwn godi o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys newid y strategaeth gofrestru neu newid y ffordd y cyflwynir cymhwyster. Ar gyfer cymwysterau newydd, gall bod yn gyfarwydd â'r trefniadau asesu hefyd chwarae rhan.

Cynnal safonau dros amser

Mae'r broses o gynnal safonau TGAU dros amser yn digwydd pan gaiff cymhwyster ei ddyfarnu ac mae'n cael ei monitro'n fanwl gennym. Bob blwyddyn, defnyddir y dadansoddiad ystadegol o gohortau blaenorol i ragfynegi canlyniadau'r flwyddyn bresennol. Wrth ragfynegi canlyniadau TGAU, rydym yn gofyn i CBAC ddefnyddio'r

dull ‘canolfannau cyffredin’, sy’n seiliedig ar ganlyniadau ymgeiswyr 16 oed yn unig yng Nghymru[6].

Fel y rheoleiddiwr, rydym yn adolygu’r canlyniadau ar gyfer pob cymhwyster. Lle mae dyfarniad yn arwain at ganlyniadau sy’n sylweddol wahanol i’r rhagfynegiadau, rydym yn adolygu’r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y bwrdd arholi er mwyn penderfynu a ellir cyfiawnhau’r dyfarniad. Wrth adolygu’r dystiolaeth, rydym yn ystyried y canlynol:

- cynnal safonau.
- tegwch i fyfyrwyr.
- hyder y cyhoedd.

[6] Am esboniad manylach o’r dull ‘canolfannau cyffredin’, gweler Atodiad 5.

7. Y broses ddyfarnu

Yn yr adran hon, rydym yn esbonio sut mae'r broses ddyfarnu yn gweithio'n ymarferol, gan gynnwys prif rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n rhan ohoni.

Paratoi ar gyfer y gyfres o arholiadau

Yn ystod y misoedd cyn pob cyfres o arholiadau, rydym yn edrych yn fanwl ar baratoadau CBAC i ddyfarnu pob cymhwyster. Rydym yn sicrhau ein bod yn fodlon ar y ffordd y mae'n bwriadu gweithredu er mwyn sicrhau y cynhelir safonau. Ar gyfer pob cyfres o arholiadau, rydym yn paratoi dogfen reoleiddio sy'n amlinellu'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol i CBAC eu dilyn wrth ddyfarnu'r cymwysterau a'r data y mae'n rhaid iddo eu rhoi i ni yn ystod y gyfres o arholiadau.

Mae byrddau arholi yn anelu at ddatblygu papurau cwestiynau sydd yr un mor anodd o un flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, mae'n anodd iawn (bron yn amhosibl) cynhyrchu papurau arholiad sydd yr un mor anodd â'i gilydd. Yn amlwg, byddai'n annheg i fyfyrwyr ennill gradd is, a hynny dim ond am eu bod wedi sefyll papur mwy anodd. Felly, ym mhob cyfres o arholiadau, mae'r bwrdd arholi yn pennu ffiniau graddau ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster yn gyffredinol. Mae hyn ond yn un o'r rhesymau pam mae ffiniau graddau yn aml yn newid rhwng cyfresi o arholiadau. Rheswm arall pam y gall ffiniau graddau newid yw er mwyn gwneud iawn lle mae perfformiad asesiad myfyrwyr mewn cymhwyster newydd ei ddiwygio yn gostwng fel arfer yn y flwyddyn gyntaf cyn gwella'n raddol dros amser.

Y pwyllgor dyfarnu

Mae CBAC yn cynnull pwyllgor dyfarnu ar gyfer pob cymhwyster. Mae'r pwyllgor dyfarnu yn cynnwys uwch arholwyr sy'n gyfrifol am ysgrifennu'r papurau cwestiynau a goruchwylio'r broses o farcio'r papurau hynny. Mae'r pwyllgor dyfarnu yn gyfrifol am argymell ffiniau graddau priodol er mwyn cynnal safonau o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r pwyllgor yn cael tystiolaeth a chymorth ystadegol gan dîm ymchwil ac ystadegau CBAC. Mae angen i'r pwyllgor dyfarnu gydbwyso ystod o dystiolaeth wrth benderfynu ble i argymell y ffiniau graddau. Mae'n rhaid iddo ystyried y dystiolaeth ystadegol, gan gynnwys rhagfynegiadau ochr yn ochr â'i adolygiad o waith myfyrwyr.

Pennu ffiniau graddau

Ffiniau graddau yw'r marc lleiaf sydd ei angen ar gyfer gradd benodol. Er enghraifft, mae ffin C o 250 yn golygu bod angen i chi ennill o leiaf 250 o farciau i gael gradd C. Ar gyfer cymwysterau TGAU, mae'r pwyllgor dyfarnu yn pennu ffiniau graddau ar sail barn (A, C ac F) ac yna caiff y ffiniau graddau eraill eu cyfrifo. Rydym yn disgrifio'r broses hon yn fanylach yn Atodiad 3.

Unwaith y bydd yr holl farcio wedi'i gwblhau, bydd y pwyllgor dyfarnu yn cyfarfod i argymell ble i bennu ffiniau graddau ar gyfer y gyfres honno o arholiadau. Mae'r pwyllgor yn ceisio dod o hyd i'r marc isaf ar gyfer gwaith y flwyddyn hon sy'n adlewyrchu orau y safon y pennwyd ffin y radd y flwyddyn flaenorol arni. I wneud hyn mae'n edrych ar waith myfyrwyr o'r flwyddyn hon sy'n agos i ffin y radd a gynigiwyd ar sail y dystiolaeth ystadegol ac yn ei gymharu â gwaith myfyrwyr a oedd ar y radd honno'r flwyddyn flaenorol. Mae'r pwyllgor dyfarnu hefyd yn derbyn gwybodaeth ystadegol am yr arholiadau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r marciau y mae'r myfyrwyr yn eu hennill ar bob cwestiwn unigol ac awgrym o ble y gellid pennu ffiniau graddau er mwyn sicrhau canlyniadau cyffredinol tebyg i arholiadau'r flwyddyn flaenorol.

Pan gaiff cymhwyster newydd ei gyflwyno, mae perfformiad myfyrwyr yn yr arholiad yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf yn debygol o ostwng o gymharu â myfyrwyr a oedd wedi sefyll y cymhwyster blaenorol ac a oedd yn fwy cyfarwydd â'r arholiadau. Wedyn, bydd perfformiad yn gwella dros amser wrth i fyfyrwyr ddod yn fwy cyfarwydd â'r cymhwyster newydd. Gelwir hyn yn effaith 'sawtooth' a ddisgrifiwn yn fanylach yn Atodiad 4. Mae'r pwyllgor dyfarnu yn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael iddo i nodi pa addasiad sydd ei angen i ganiatáu ar gyfer yr effaith hon.

Mae angen i'r pwyllgor dyfarnu gydbwyso'r dystiolaeth ystadegol a safon gwaith y myfyrwyr a adolygwyd ganddo. Fel man cychwyn, mae'n defnyddio'r dadansoddiad ystadegol o'r ffordd y mae asesiadau y flwyddyn hon wedi gweithredu, gan gynnwys canlyniadau a ragfynegwyd er mwyn nodi amrediad gwaith myfyrwyr i'w ystyried. Mae'n ystyried gwaith ymgeiswyr o'r gyfres bresennol o arholiadau ac yn ei gymharu â gwaith ymgeiswyr a oedd ar ffin y radd yn y gyfres ddiwethaf o arholiadau. Y ffactor sy'n llywio'r penderfyniad yw barn y pwyllgor dyfarnu ynghylch pa farc sy'n cynrychioli orau safon gwaith gymaradwy â'r llynedd.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth yn ofalus, mae'r pwyllgor dyfarnu yn argymell y marc isaf sydd ei angen ar gyfer pob gradd er mwyn sicrhau bod y safonau gofynnol ar gyfer y flwyddyn hon yr un fath ag mewn blynyddoedd blaenorol. Yna, mae'r bwrdd arholi yn cynnal gwiriadau ansawdd i sicrhau bod y pwyllgor wedi ystyried yr holl

dystiolaeth sydd ar gael ac y gellir cyfiawnhau'r penderfyniadau o ran ffiniau graddau. Caiff y ffiniau gradd terfynol eu hadolygu a'u cymeradwyo gan swyddog cyfrifol y bwrdd arholi.

Rôl y rheoleiddiwr

Rydym yn craffu'n fanwl ar broses CBAC o bennu ffiniau graddau priodol drwy gydol y cyfnod dyfarnu. Cyn cadarnhau dyfarniad cymhwyster, mae'n rhaid i CBAC gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau a gynigir ganddo mewn cyfarfod Cynnal Safonau. Ar ôl y cyfarfod hwn, ar yr amod y cytunir ar yr holl ganlyniadau, yna bydd CBAC yn prosesu'r ffiniau gradd hyn ac yn cadarnhau'r radd y mae pob myfyriwr wedi'i hennill.

8. Dyfarniad TGAU Saesneg Iaith Haf 2018

Yn yr adran hon rydym yn disgrifio'n fanwl sut y dyfarnwyd TGAU Saesneg Iaith yn haf 2018. Rydym yn esbonio'r dystiolaeth a ystyriwyd a'r penderfyniadau a wnaed gan y pwyllgor dyfarnu wrth bennu'r ffiniau gradd.

Cofrestriadau

Bu lleihad yn nifer y myfyrwyr a safodd TGAU Saesneg Iaith yr haf hwn. Mae hyn o ganlyniad i'r lleihad yn nifer y myfyrwyr Blwyddyn 10 a oedd yn sefyll arholiadau yn gynnar a lleihad yn nifer y myfyrwyr Blwyddyn 11 a oedd yn sefyll arholiadau yr haf hwn am eu bod wedi sefyll y cymhwyster fel rhan o gyfres gynharach ac nad oeddent wedi dychwelyd i ailsefyll yr arholiad. Mae'r lleihad hwn ym maint y cohort yn golygu bod cyfran uwch o'r canlyniadau yn TGAU Saesneg Iaith yr haf hwn ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 12 ac uwch, yr oedd llawer ohonynt yn ailsefyll y cymhwyster.

Dengys Tabl 8.1 nifer y myfyrwyr a safodd TGAU Saesneg Iaith ym mis Mehefin 2017 a mis Mehefin 2018 yn ôl oedran.

Tabl 8.1 Tystysgrifau a roddwyd yn ôl oedran (Cymru).

	Nifer y myfyrwyr				Canran o'r cyfanswm		
	Blwyddyn 10 oed ac iau	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12 ac uwch	Cyfan-swm	Blwyddyn 10 oed ac iau	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12 ac uwch
Mehefin 2017	20,979	31,064	6,814	58,857	35.6%	52.8%	11.6%
Mehefin 2018	709	20,575	6,571	27,855	2.5%	73.9%	23.6%

Ffynhonnell: Y Cyd-bwyllgor Cymwysterau

O ystyried y newid sylweddol hwn i natur y cohort a safodd TGAU Saesneg Iaith yn haf 2018 o gymharu â haf 2017 nid oeddem yn disgwyl i'r canlyniadau ar lefel genedlaethol fod yn debyg. Ar ôl i'r arholiadau gael eu sefyll, cyhoeddwyd erthygl gennym yn nodi'r newidiadau i'r cohort a safodd TGAU Saesneg Iaith a'r hyn a all ei olygu ar gyfer canlyniadau'r haf[7].

[7] http://qualificationswales.org/media/3516/ffocws-ar-ganlyniadau-cymaradwy.pdf

Dadansoddi cyn dyfarnu

Ar gyfer pob cymhwyster TGAU diwygiedig mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg, gofynnwyd i CBAC lunio rhagfynegiadau yn seiliedig ar ganlyniadau gradd orau disgwyliedig ar gyfer myfyrwyr 16 oed fel y nodwyd yn y gweithdrefnau cyfnewid data (Gweithdrefnau Cyfnewid Data Haf 2018 Cymru[8]). Roedd y dull gweithredu hwn yn gyson â'r fethodoleg rhagfynegi a ddefnyddiwyd ym mis Mehefin 2017 er mwyn rheoli'r broses o drosglwyddo'r safon o'r cymwysterau etifeddol. Gofynnwyd i CBAC ddefnyddio'r dull rhagfynegi Mehefin 2017 er mwyn sicrhau bod y safon genedlaethol yn cael ei throsglwyddo yng nghyd-destun cofrestru cynnar a lluosog yn y cymwysterau etifeddol.

O ystyried bod cryn dipyn o gofrestru cynnar a lluosog gan gohort 16 oed 2018, barnwyd gennym mai'r un dull rhagfynegi fyddai'r un mwyaf priodol er mwyn sicrhau canlyniadau gradd orau cymaradwy ar gyfer myfyrwyr 16 oed yn haf 2018 o gymharu â myfyrwyr 16 oed yn haf 2017. I bob diben, drwy ddefnyddio'r dull hwn, roeddem yn disgwyl i'r canlyniadau gradd orau cenedlaethol ar gyfer myfyrwyr 16 oed yn haf 2018 fod yn debyg yn fras i'r canlyniadau gradd orau cenedlaethol ar gyfer myfyrwyr 16 oed yn haf 2017. Rydym yn esbonio'r dull o ragfynegi'r radd orau yn fanwl yn Atodiad 5. Defnyddiodd y pwyllgor dyfarnu y rhagfynegiad fel rhan o'r dystiolaeth ystadegol i'w hystyried ochr yn ochr â'i adolygiad o waith myfyrwyr.

Y dyfarniad

Roedd pwyllgor dyfarnu haf 2018 ar gyfer TGAU Saesneg Iaith yn cynnwys yr un aelodau a ddyfarnodd gymhwyster haf 2017 a chymhwyster Tachwedd 2017. Cyflwynodd swyddog ystadegol CBAC y dystiolaeth ystadegol, gan gynnwys y ffiniau cychwynnol a argymhellwyd i'r pwyllgor dyfarnu. Defnyddiwyd y rhain i nodi'r amrediad marciau ar gyfer tynnu samplau o waith myfyrwyr i'r pwyllgor edrych arnynt. Hefyd, edrychodd y pwyllgor ar waith ar y ffiniau gradd a bennwyd yn y gyfres flaenorol o arholiadau.

Rhoddodd Uwch Arholwr pob uned drosolwg o'r ffordd roedd y papur cwestiynau yn gweithredu. Ar gyfer yr uned llafaredd (Uned 1), nododd adroddiad y Cadeirydd fod y Prif Gymedrolwr wedi nodi '*the reading of scripts still being in evidence*' a '*that some centres are not teaching candidates the necessary skills nor giving them opportunity to practise these skills, before the actual assessments take place.*' Yn Unedau 2 a 3,

[8] https://www.qualificationswales.org/english/publications/data-exchange-procedures-wales-summer-2018/

nododd adroddiad y Cadeirydd '*written accuracy proved a significant area of concern'. 'Candidates whose work is characterised by numerous errors, a struggle to control tense and agreement, or an inability to punctuate with control and coherence did struggle…. This is likely to be the most significant factor affecting candidates who do not achieve their desired mark.'* At hynny, eglurodd yr Uwch Arholwr wrth y pwyllgor fod rhywfaint o dystiolaeth bod myfyrwyr yn defnyddio strategaethau i ennill marciau gan fod rhai papurau arholiad '*included a tick list of different types of punctuation… which (candidates) then tried to shoehorn into their writing*.' Y wybodaeth hon fu'n sail i Adroddiad yr Arholwr a gyhoeddwyd ar y diwrnod canlyniadau[9].
Mae Tabl 8.2 yn rhoi'r amrediadau o farciau a ystyriwyd ar gyfer pob ffin gradd allweddol a'r ffiniau cychwynnol a argymhellwyd (IRB) caiff pob uned ei marcio allan o 80:

Tabl 8.2 Amrediadau adolygu sgriptiau a ffiniau cychwynnol a argymhellwyd (IRB).

	Uned 1 (NEA)			Uned 2			Uned 3		
	A	C	F	A	C	F	A	C	F
Amrediad	62-66	46-50	22-26	54-58	42-46	14-18	50-54	38-42	10-14
IRB	64	48	24	56	44	16	52	40	12

Craffodd pob aelod o'r pwyllgor yn annibynnol ar ystod o waith myfyrwyr a chofnododd p'un a oedd yn haeddu'r radd ym marn yr aelod. Cafodd y penderfyniadau unigol hyn eu casglu a'u crynhoi. Yna, penderfynodd y pwyllgor ar y cyd ar yr amrediad marciau lle y gellid pennu'r ffin gradd derfynol. Yna, dewisodd y Cadeirydd y marciau ffin a argymhellwyd, gan ystyried safbwyntiau'r pwyllgor a'r dystiolaeth ystadegol.

Dengys Tabl 8.3 y ffiniau a argymhellwyd gan y pwyllgor ar gyfer pob uned ar bob gradd allweddol. Ar radd C, argymhellodd y pwyllgor dyfarnu y dylid pennu'r ffiniau gradd ar gyfer dwy o'r unedau un marc yn uwch na'r ffin gychwynnol a argymhellwyd (IRB). Roedd y pwyllgor yn ystyried bod angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod y dyfarniad yn adlewyrchu safon y cyrhaeddiad a ddisgwylir ar gyfer gradd C. Mae adroddiad y Cadeirydd yn nodi bod y marciau a bennwyd ar gyfer ffin C/D ar bob uned yn cynrychioli'r safon ofynnol a ddisgwylir ar gyfer gradd C ac roedd wedi'i gefnogi gan bob aelod o'r pwyllgor.

[9] http://www.wjec.co.uk/examiner-reports/2018/gcse/wjec-gcse-english-language-new-report-summer-2018-e.pdf?language_id=1

Tabl 8.3 Ffiniau cychwynnol a argymhellwyd (IRB) a ffiniau a argymhellwyd.

	Uned 1 (NEA)			Uned 2			Uned 3		
	A	C	F	A	C	F	A	C	F
IRB	64	48	24	56	44	16	52	40	12
Ffin a argymhellwyd	63	48	24	56	45	17	53	41	13

Defnyddiodd CBAC y ffiniau gradd a argymhellwyd gan y pwyllgor i gynhyrchu canlyniadau dros dro a gafodd eu cymharu â'r canlyniadau a ragfynegwyd. Dengys Tabl 8.4 isod y rhagfynegiadau a'r canlyniadau dros dro a adolygwyd gan y pwyllgor.

Tabl 8.4 Rhagfynegiadau a chanlyniadau.

Cyfres		Cyfan-swm Cymru†	A*	A	B	C	D	E	F	G	U
Mehefin 2018	Canlyniadau 2018	28,080	3.1	13.2	34.5	64.2	82.4	92.0	97.2	99.3	100.0
Mehefin 2018	Rhagfynegiadau 2018	28,080	3.0	13.9	37.8	64.9	82.6	92.4	97.6	99.6	100.0
	Canlyniadau - Rhagfynegiadau		0.1	-0.7	-3.3	-0.7	-0.2	-0.4	-0.4	-0.3	0.0

†*heb gynnwys myfyrwyr nad oeddent wedi sefyll pob un o'r unedau ar gyfer y cymhwyster Talgrynnwyd y rhifau i'r pump agosaf.*

Dengys Tabl 8.5 ffiniau gradd terfynol yr unedau a gymeradwywyd gan y pwyllgor dyfarnu ar gyfer y tair cyfres o arholiadau.

Tabl 8.5 Ffiniau graddau unedau ar sail barn.

	Uned 1 (NEA)			Uned 2			Uned 3		
	A	C	F	A	C	F	A	C	F
Mehefin 2017	64	46	24	56	41	16	52	36	12
Tach 2017	64	46	24	57	42	17	53	37	13
Mehefin 2018	63	48	24	56	45	17	53	41	13

Caiff pob uned ei marcio allan o 80 o farciau. Dengys Tabl 8.6 y ffiniau gradd fel canran o'r marc uchaf.

Tabl 8.6 Ffiniau graddau unedau ar sail barn fel canrannau.

	Uned 1			Uned 2			Uned 3		
	A	C	F	A	C	F	A	C	F
Mehefin 2017	80.0%	57.5%	30.0%	70.0%	51.3%	20.0%	65.0%	45.0%	15.0%
Tach 2017	80.0%	57.5%	30.0%	71.3%	52.5%	21.3%	66.3%	46.3%	16.3%
Mehefin 2018	78.8%	60.0%	30.0%	70.0%	56.3%	21.3%	66.3%	51.3%	16.3%

Nid yw'r cymhwyster wedi'i bwysoli'n gyfartal ar draws y tair uned. Mae Unedau 2 a 3 yn werth 40% o'r cymhwyster, mae Uned 1 yn werth 20% o'r cymhwyster. Felly, cyn y gellir cyfuno marciau unedau, mae angen cymhwyso ffactor graddio o 2 at Unedau 2 a 3 er mwyn sicrhau y cyflawnir y pwysoliadau cymhwyster cyffredinol. Dengys Tabl 8.7 y ffiniau gradd ar gyfer y cymhwyster ar ôl i'r marciau gael eu cyfuno.

Tabl 8.7 Ffiniau lefel y cymhwyster.

	Ffiniau graddau'r cymhwyster			Ffiniau graddau pwnc fel canrannau		
	A	C	F	A	C	F
Mehefin 2017	280	200	80	70.0%	50.0%	20.0%
Tach 2017	284	204	84	71.0%	51.0%	21.0%
Mehefin 2018	281	220	84	70.3%	55.0%	21.0%

Dengys Tabl 8.8 sut y caiff y ffiniau gradd eu cyfrifo o'r marciau crai.

Tabl 8.8 Ffin gradd C.

	Mehefin 2017			Mehefin 2018		
Uned	Crai	Cyfunol Ffactor	Cyfunol	Crai	Cyfunol Ffactor	Cyfunol
1	46	1	46	48	1	48
2	41	2	82	45	2	90
3	36	2	72	41	2	82
Cyfanswm	123	DD/G	200	134	DD/G	220

Mae'r cynnydd o 20 o farciau yn ffin gradd C ar lefel y cymhwyster yn cyfateb i ennill 11 yn fwy o farciau crai er mwyn i fyfyrwyr ennill gradd C yn haf 2018 o gymharu â haf 2017.

Trosolwg rheoleiddiol

Fel rhan o'n rhaglen fonitro, arsylwodd arbenigwr pwnc ar y broses ddyfarnu ddeuddydd ar gyfer TGAU Saesneg Iaith a chyflwynodd adroddiad arni. Roeddem yn fodlon bod y broses ddyfarnu wedi'i chynnal yn unol â'n gofynion a'n disgwyliadau. Rhoddodd adroddiad ein sylwedydd dystiolaeth bod ffiniau graddau wedi cael eu pennu yn unol â'n rheolau, o ystyried y dystiolaeth ystadegol a'r farn arbenigol.

Ar ôl adolygu amrywiaeth o waith myfyrwyr, daeth y pwyllgor i'r casgliad bod angen codi'r ffiniau gradd cychwynnol a gynigiwyd ar gyfer gradd C o un marc er mwyn sicrhau bod y dyfarniad yn adlewyrchu safon y cyrhaeddiad a ddisgwylir ar gyfer y radd honno. Roedd y pwyllgor yn pryderu'n benodol am ansawdd yr ysgrifennu a welodd wrth adolygu gwaith myfyrwyr. Nododd ein sylwedydd fod y pwyllgor wedi gwneud sylwadau am '*the relatively poor quality of writing across the grade boundaries'* a arweiniodd at *'concern about an obvious imbalance between skills in reading and writing.'* Oherwydd diffyg cydbwysedd o'r fath rhwng sgiliau, '*candidates at the key boundaries could pick up enough marks on the lower-tariff reading questions to compensate for deficiencies in the writing question(s) and achieve a total mark which gets them over the threshold.'*

O ystyried mai hon oedd y drydedd gyfres o arholiadau y dyfarnwyd y cymhwyster hwn, byddem yn disgwyl pwysau tuag i fyny ar ffiniau graddau er mwyn addasu ar gyfer ymgyfarwyddo â'r asesiadau ymhlith myfyrwyr ac athrawon. Roedd y ffiniau gradd a bennwyd yn adlewyrchu safon gymaradwy â dyfarniadau blaenorol.

Ar 3 Awst 2018, cyflwynodd CBAC ddyfarniad TGAU Saesneg Iaith ynghyd â'r dyfarniadau TGAU eraill a wnaed ganddo ar gyfer cyfres arholiadau haf 2018 i ni yn ystod y cyfarfod Cynnal Safonau. Roeddem yn fodlon bod y dyfarniad TGAU Saesneg Iaith wedi cael ei gynnal yn briodol a bod y safon wedi cael ei chynnal ers y gyfres flaenorol. Yn dilyn y cyfarfod hwn, dyfarnodd CBAC y cymhwyster yn derfynol.

9. Dadansoddiad o'r canlyniadau

Yn yr adran hon rydym yn cyflwyno canfyddiadau ein dadansoddiad o ganlyniadau TGAU Saesneg Iaith haf 2018 ar lefel genedlaethol ac ar lefel canolfan.

Dadansoddwyd amrywiaeth o dystiolaeth er mwyn ymchwilio i ganlyniadau TGAU Saesneg Iaith, gan gynnwys:

- cofrestriadau[10] a chanlyniadau yn y gyfres bresennol a'r gyfres flaenorol o arholiadau.
- canlyniadau gradd orau.
- y radd orau yn ôl llwybr cofrestru.
- y berthynas rhwng canlyniadau a rhagfynegiadau.
- y berthynas rhwng ailsefyll a chanlyniadau.
- newidiadau mewn canlyniadau ar lefel canolfan ('amrywiad canolfannau', ysgolion a cholegau).

Y cwestiynau allweddol ar gyfer y dadansoddiad ystadegol oedd p'un a oedd unrhyw dystiolaeth:

- nad oedd y safon o haf 2017 wedi cael ei chynnal yn ystod dyfarniad haf 2018;
- bod cofrestru cynnar a lluosog yn effeithio ar ganlyniadau ar lefel canolfan.

Yn gryno, canfuwyd y canlynol:

- roedd tystiolaeth yn dangos bod y safon genedlaethol wedi cael ei chynnal.
  - Mae'r canlyniadau yn erbyn y rhagfynegiadau sy'n deillio o'r dyfarniad yn rhoi tystiolaeth bod y safon genedlaethol wedi'i chynnal.
  - Mae'r amrywiad mewn canlyniadau ar lefel canolfan mewn Saesneg Iaith yn debyg i gymwysterau TGAU Cymraeg a Saesneg eraill, ac i'r hyn a welwyd yn haf 2017.
  - Mae llai o ganolfannau sydd ag amrywiadau mawr eleni, o gymharu â'r llynedd, ac mae llai yn gweld gostyngiadau mawr yn eu canlyniadau.

- cafwyd tystiolaeth sy'n dangos perthynas rhwng arfer cofrestru cynnar a lluosog a chanlyniadau. Mae'r berthynas yn amrywio rhwng y graddau, a chymysg yw'r darlun ar lefel canolfan.

[10] Cyfeiria cofrestriadau yma at nifer yr ymgeiswyr sy'n ennill gradd, gan gynnwys gradd U.

- Mewn canolfannau a gofrestrodd ymgeiswyr yn gynnar gwelwyd gwelliant, ar gyfartaledd, mewn canlyniadau gradd orau o flwyddyn i flwyddyn ar A*-C ac A*-F, ond gwelwyd gostyngiad mewn canolfannau nad oeddent yn cofrestru myfyrwyr yn gynnar. Fodd bynnag, cafwyd tystiolaeth hefyd fod canolfannau a gofrestrodd ymgeiswyr yn gynnar yn cael canlyniadau gwaeth o flwyddyn i flwyddyn ar A* ac A*-A, ond mewn canolfannau nad oeddent yn cofrestru myfyrwyr yn gynnar cafwyd gwelliant yn A* a gostyngiad llai ar A*-A;
- Ceir tystiolaeth ystadegol gadarn o berthynas rhwng arfer cofrestru cynnar a lluosog a chanlyniadau gwell ar gyfartaledd o flwyddyn i flwyddyn ar A*-C. Fodd bynnag, mae'r darlun cyfartalog hwn yn celu amrywiadau canolfannau a fabwysiadodd strategaethau cofrestru tebyg. Mae hyn yn awgrymu bod ffactorau eraill, yn ychwanegol at arfer cofrestru, neu yn hytrach nag arfer cofrestru, yn gysylltiedig â gwelliant neu ostyngiad o ran canlyniadau ar lefel canolfan.

Diffiniadau o gohort a chyfleoedd cofrestru

Mae'r dull o gynnal safonau ar gyfer cymwysterau TGAU a ddyfernir bob haf yn canolbwyntio ar ymgeiswyr sy'n 16 oed erbyn 31 Awst. Hynny yw, canolbwyntir ar ymgeiswyr sy'n sefyll eu harholiadau ar ddiwedd Blwyddyn 11. Yn y dadansoddiad hwn, mae 'Cohort 2017' yn cyfeirio at ymgeiswyr a oedd ym Mlwyddyn 11 ym mis Mehefin 2017, ac mae 'Cohort 2018' yn cyfeirio at ymgeiswyr a oedd ym Mlwyddyn 11 ym mis Mehefin 2018.

Cyflwynwyd y cymhwyster TGAU Saesneg Iaith newydd i'w addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2015. Roedd y cyfle asesu cyntaf ar gyfer Cohort 2017 ym mis Mehefin 2017. Gan na allai Cohort 2017 gofrestru'n gynnar ar gyfer TGAU Saesneg Iaith, aseswyd y cohort cyfan yn yr un gyfres o arholiadau, ym mis Mehefin 2017.

Mewn gwrthgyferbyniad, gallai ymgeiswyr yng Nghohort 2018 gofrestru'n gynnar ar gyfer TGAU Saesneg Iaith ym mis Mehefin 2017 (pan oeddent ym Mlwyddyn 10). Gallai'r ymgeiswyr hynny a wnaeth hyn sefyll eu harholiadau hyd at deirgwaith erbyn diwedd Blwyddyn 11 - ym mis Mehefin 2017, fel rhai a oedd yn ailsefyll yng nghyfres Tachwedd 2017 ac unwaith eto ym mis Mehefin 2018.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Cenedlaethol

Mae data'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau ar gyfer cyfres mis Mehefin 2017 a mis Mehefin 2018 yn Nhabl 9.1 yn dangos sut roedd y cyfleoedd asesu ar lefel cohort yn gysylltiedig â phatrymau cofrestru a chanlyniadau gwahanol iawn (yn gyffredinol ac

yn ôl oedran) yn y cyfresi hyn. Mae'n rhaid ystyried cyfansoddiad oedran y rhai sy'n sefyll yr arholiadau ar adegau gwahanol er mwyn gwneud cymariaethau dilys.

Roedd canlyniadau cronnus ar raddau A*-A ac A*-G yn sefydlog dros amser. Roedd canlyniadau ar gyfer yr holl ymgeiswyr ar radd A*-C yn haf 2018 yn cynnwys canlyniadau cymharol wael i ymgeiswyr a oedd yn 17 neu'n hŷn. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys ymgeiswyr a oedd yn ailsefyll o Gohort 2017 ac roedd yn cyfrif am gyfran fwy o gyfanswm y tystysgrifau a roddwyd yn haf 2018. Cafwyd lleihad hefyd yn nifer y cofrestriadau ymhlith myfyrwyr 16 oed yng Nghohort 2018, o gymharu â Chohort 2017 yng nghyfres arholiadau haf 2017, a oedd yn cynnwys bron bob myfyriwr 16 oed. Y rheswm yw nad oedd cyfran sylweddol o Gohort 2018 wedi dychwelyd yng nghyfres haf 2018, ar ôl ennill graddau eisoes yng nghyfres haf 2017 neu gyfres Tachwedd 2017.

Tabl 9.1 Canlyniadau cronnus cenedlaethol (canrannau).

Oedran		Nifer yn Sefyll	A*-A	A*-C	A*-G
15 neu'n iau	Mehefin 2017	20,979	7.8	54.0	98.3
	Mehefin 2018	709	18.9	57.8	96.2
	Newid	*-20,270*	*11.1*	*3.8*	*-2.1*
16	Mehefin 2017	31,064	14.3	64.8	98.6
	Mehefin 2018	20,575	11.8	45.5	98.2
	Newid	*-10,489*	*-2.5*	*-19.3*	*-0.4*
17 neu'n hŷn	Mehefin 2017	6,814	2.1	36.6	97.2
	Mehefin 2018	6,571	2.4	27.0	98.4
	Newid	*-243*	*0.3*	*-9.6*	*1.2*
Pob ymgeisydd	Mehefin 2017	58,857	10.6	57.7	98.3
	Mehefin 2018	27,855	9.8	41.4	98.2
	Newid	*-31,002*	*-0.8*	*-16.3*	*-0.1*

Ffynhonnell: Y Cyd-bwyllgor Cymwysterau

Dengys Tabl 9.2 nifer yr ymgeiswyr unigryw a oedd yn dilyn llwybrau cofrestru gwahanol ar gyfer TGAU Saesneg Iaith yng Nghohort 2018. Cofrestrodd 30,010 o ymgeiswyr ar gyfer y cymhwyster o leiaf unwaith. O blith y rhain, safodd 30.1 y cant ym mis Mehefin 2018 yn unig, ond cofrestrwyd 20.9 y cant ym mhob un o'r tair cyfres. Ychydig dros hanner yr ymgeiswyr – 51.0 y cant – a safodd y cymhwyster fwy nag unwaith yn ystod y cyfnod o 12 mis rhwng Mehefin 2017 a Mehefin 2018.

Hefyd, ystyriwyd dadansoddiad o ganlyniadau gradd orau yn ôl llwybrau cofrestru. Fodd bynnag, yn ein barn ni, nid oedd hon yn gymhariaeth ddilys am fod y canlyniadau a gafodd ymgeiswyr yn dylanwadu ar b'un a fyddent yn ailsefyll. Mae

hyn yn creu 'tuedd wrth ddethol' mewn perthynas â'r ymgeiswyr sy'n dal ym mhob llwybr cofrestru erbyn mis Mehefin 2018, sy'n golygu bod cymharu'r canlyniadau gradd orau a gafwyd drwy wahanol lwybrau cofrestru yn gamarweiniol o bosibl.

Tabl 9.2 Nifer yr ymgeiswyr unigryw yng Nghohort 2018 yn ôl llwybr cofrestru

Llwybr Cofrestru	N	Canran o'r cyfanswm
Mehefin 2017 yn unig	5,675	18.9
Mehefin a Thachwedd 2017 yn unig	4,125	13.7
Mehefin 2018 yn unig	9,035	30.1
Mehefin 2017 a Mehefin 2018 yn unig	4,885	16.3
Pob un	6,280	20.9
Arall[11]	10	0.0
Cyfanswm	30,010	100.0

Talgrynnwyd y rhifau i'r pump agosaf.

Er mwyn gwneud cymariaethau dilys o ran cyrhaeddiad ar lefel y cohort, bydd angen i ni edrych ar y radd orau a enillwyd gan bob ymgeisydd. Graddau gorau yw'r radd uchaf a enillwyd gan fyfyriwr o bob ymgais. Mae Tabl 9.3 yn cynnwys gwybodaeth am y graddau gorau a enillwyd gan Gohort 2017 a Chohort 2018 yn y cymhwyster TGAU Saesneg Iaith.

Roedd y canlyniadau hyn yn sefydlog ar y cyfan. O ran ffiniau graddau a bennir ar sail barn (A, C ac F), roedd gostyngiad bach yng nghyfrannau'r ymgeiswyr a enillodd radd A*-A neu A*-C, a chynnydd bach ar A*- F. Roedd gostyngiad mwy ar Radd B ac uwch, ond caiff ffin y radd hon ei phennu'n rhifyddol unwaith y cytunir ar y ffiniau gradd ar sail barn.

[11] Mae'r categori 'arall' yn cyfeirio at nifer fach o ymgeiswyr a wnaeth ailsefyll y cymhwyster ac ennill gradd, ar ôl cofrestru ar gyfer gyfres flaenorol ond nad oeddent yn bresennol ar gyfer yr asesiadau.

Tabl 9.3 Canlyniadau cronnus gradd orau i ymgeiswyr 16 oed.

Gradd	Cohort 2017	Cohort 2018	Newid
A*	3.2	3.2	0
A*-A	14.1	13.3	-0.8
A*-B	37.9	34.3	-3.6
A*-C	64.4	63.3	-1.1
A*-D	81.5	81.4	-0.1
A*-E	90.5	90.8	0.3
A*-F	95.9	96.1	0.2
A*-G	98.6	98.7	0.1
A*-U	100	100	0
N	30,790	30,015	-780

Talgrynnwyd y rhifau i'r pump agosaf.

Dengys Tabl 9.4 y canlyniadau gwirioneddol o'u cymharu â'r canlyniadau a ragfynegwyd i'r ymgeiswyr hynny yng Nghohort 2018 a ddefnyddiwyd i lunio'r rhagfynegiad (y cyfeirir atynt fel ymgeiswyr wedi'u paru). Mae rhagfynegiadau yn cynnig ffordd feintiol o helpu i sicrhau bod safon y cymhwyster yn cael ei throsglwyddo bob blwyddyn. Mae'r rhagfynegiadau yn dangos pa ganlyniadau a ddisgwylid pe bai'r cohort presennol wedi sefyll yr arholiad yn y flwyddyn gyfeirio. Roedd y rhagfynegiad hwn ar sail 'gradd orau' er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod cyfansoddiad oedran y cofrestriadau ar gyfer pob cyfres o arholiadau wedi newid yn sylweddol. Canllaw i'r canlyniadau a ddisgwylid yw'r rhagfynegiad, yn hytrach na phennu, er enghraifft, nifer yr ymgeiswyr a all ennill pob gradd.

O ystyried bod y rhagfynegiad yn seiliedig ar sampl fawr o ymgeiswyr yn cynrychioli'r rhan fwyaf o'r cohort cenedlaethol, byddem yn disgwyl iddo fod yn dystiolaeth gywir i dywys y broses ddyfarnu. Mae ein rheolau'n nodi y byddem yn disgwyl i ganlyniadau gwirioneddol ymgeiswyr wedi'u paru fod o fewn un y cant yn fwy neu'n llai na'r canlyniadau a ragfynegwyd ar raddau A*-A and A*-C. Dengys Tabl 9.4 i hyn gael ei gyflawni. Mae hyn yn dystiolaeth bod y safon a awgrymwyd gan y graddau gorau a enillwyd gan Gohort 2017 wedi'i chynnal yn ystod dyfarniad haf 2018 ar gyfer Cohort 2018[12].

[12] Mae canlyniadau graddau gorau a enillwyd ar gyfer y cohort cyfan yn Nhabl 9.3 ychydig yn wahanol i'r canlyniadau gwirioneddol ar gyfer ymgeiswyr wedi'u paru yn Nhabl 9.4, am fod yr olaf hefyd yn cynnwys canlyniadau o weddill y cohort. Roedd gan yr ymgeiswyr hyn lefelau cyrhaeddiad ychydig yn is na'r ymgeiswyr wedi'u paru.

Tabl 9.4 Canlyniadau cronnus yn erbyn rhagfynegiadau.

Cyfres	Canlyniadau gradd Cymru yn unig	Cyfanswm cyfnewid graddau Cymru	A*	A*-A	A*-B	A*-C	A*-D	A*-E	A*-F	A*-G	A*-U
Meh 2018	Canlyniadau gwirioneddol 2018 ar gyfer ymgeiswyr wedi'u paru	28,080	3.1	13.2	34.5	64.2	82.4	92.0	97.2	99.3	100.0
Meh 2018	Canlyniadau 2018 a ragfynegwyd ar gyfer ymgeiswyr wedi'u paru	28,080	3.0	13.9	37.8	64.9	82.6	92.4	97.6	99.6	100.0
	Gwahaniaeth		0.1	-0.7	-3.3	-0.7	-0.2	-0.4	-0.4	-0.3	0.0

Talgrynnwyd y rhifau i'r pump agosaf.

Dadansoddiad o ganlyniadau ar lefel canolfan (amrywiad canolfannau)

Rydym yn disgwyl i ganlyniadau amrywio ar lefel canolfan o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, hyd yn oed pan fydd canlyniadau ar lefel genedlaethol yn sefydlog. Bydd canlyniadau mewn rhai canolfannau yn gwella a bydd rhai yn gostwng. Byddem yn disgwyl i ganlyniadau amrywio'n fwy (ar gyfartaledd) pan fydd canolfannau'n fach (oherwydd meintiau bach samplau) a phan fydd patrymau cofrestru yn newid yn sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (oherwydd newidiadau tebygol yng ngallu'r rhai sy'n cael eu cofrestru gan ganolfannau o'r fath yn y pwnc). Mae ffactorau eraill hefyd yn dylanwadu ar y ffordd y mae canlyniadau ar lefel canolfan yn newid, gan gynnwys newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yng ngallu ymgeiswyr a newidiadau yn y ffordd y cyflwynir cymhwyster mewn canolfan.

Mae'r newidiadau mewn cofrestriadau yn ôl oedran ar gyfer cyfres unigol o arholiadau, yn ogystal â'r dull o gynnal canlyniadau gradd orau cymaradwy yn y cymhwyster Saesneg Iaith, yn golygu ei bod yn gwneud synnwyr ystyried sut mae canlyniadau ar lefel canolfan wedi newid ar sail 'gradd orau', ar gyfer Cohort 2018 o gymharu â Chohort 2017.

Mae Tabl 9.5 yn crynhoi sut mae canlyniadau ar lefel canolfan wedi newid ymhlith canolfannau ar gyfer Cohort 2018 o gymharu â Chohort 2017. Ar gyfartaledd, gwelwyd gostyngiad o 1.2 pwynt canrannol yng nghanlyniadau gradd orau canolfannau ar radd A*-C. Gwelwyd gostyngiadau cyfartalog llai ar Radd A*-A a Gradd A*-F. Mae hyn yn gyson â'r data yn Nhabl 9.3. Mae'r ffigurau gwyriad safonol a ddangosir yn Nhabl 9.6 yn mesur maint yr amrywiad o ran sut mae canlyniadau ar lefel canolfan wedi newid ym mhob canolfan.

Tabl 9.5 Amrywiad canolfan TGAU Saesneg Iaith (Cohort 2018 o'i gymharu â Chohort 2017, gradd orau).

	A	C	F
N	260	260	260
Cymedr	-0.94	-1.21	-1.06
Gwyriad Safonol	6.24	14.56	11.76

Talgrynnwyd y rhifau i'r pump agosaf.

Mae Tabl 9.6 yn rhoi'r gostyngiad hwn ar gyfer Saesneg Iaith yng nghyd-destun cymwysterau TGAU Cymraeg a Saesneg diwygiedig eraill a ddyfarnwyd am y tro cyntaf yn 2017. Ar gyfer Cohort 2017, gwneir y gymhariaeth ar sail y newid canrannol mewn canlyniadau cronnus gradd orau mewn canolfannau ar raddau A, C ac F o gymharu â'r cohort a gofrestrodd ar gyfer y cymhwyster TGAU Saesneg Iaith etifeddol yn Haf 2016 (caiff y gymhariaeth hon ei labelu'n 'Cohort 2017').

Mae'r tabl yn dangos bod yr amrywiad mewn newidiadau yng nghanlyniadau canolfannau (fel y'i mesurir drwy'r gwyriad safonol) ar raddau A*-C ar gyfer TGAU Saesneg Iaith yng Nghohort 2018 yn debyg i'r hyn a welwyd ar gyfer Cohort 2017, ac yn debyg i'r amrywiad a welwyd mewn cymwysterau TGAU Cymraeg a Saesneg eraill yng Nghohort 2018.

Tabl 9.6 Amrywiad cyfartalog canolfannau yn ôl pwnc a chyfres.

	Newid cymedrig ar C		Gwyriad Safonol	
Pwnc	Cohort 2018	Cohort 2017	Cohort 2018	Cohort 2017
Saesneg Iaith	-1.2	-2.0	14.6	15.9
Llenyddiaeth Saesneg	1.8	-0.7	15.6	14.1
Cymraeg Iaith	0.3	2.6	13.4	18.5
Llenyddiaeth Gymraeg	0.4	0.6	13.0	11.7

Dengys Tabl 9.7 nifer y canolfannau lle roedd amrywiad mawr ar radd A*-C. Ystyrir fod amrywiad mawr yn fwy na +/- 15.0 pwynt canrannol h.y. yn fwy na lled un gwyriad safonol. Dengys hyn fod newid mawr yng nghanlyniadau 60 o ganolfannau y llynedd, gyda 35 yn gweld gostyngiadau mawr yn eu canlyniadau a 25 yn gweld cynnydd mawr yn eu canlyniadau. Eleni, bu llai o newidiadau mawr (35 o gymharu â 59) ac mae llai o ganolfannau wedi gweld gostyngiadau mawr (20 o gymharu â 35).

Tabl 9.7 Amrywiad canolfannau sy'n fwy na +/-15 pwynt canrannol ar radd C.

	N	>15 %	Cynnydd	Gostyngiad
2017	255	60	25	35
2018	255	35	15	20

Talgrynnwyd y rhifau i'r pump agosaf.

Mae'r dadansoddiad nesaf yn ystyried y data ar amrywiad canolfannau mewn perthynas ag arfer cofrestru mewn canolfannau, gan gymharu canolfannau a gofrestrodd ymgeiswyr yn gynnar (a ddiffinnir yma fel o leiaf 10 ymgeisydd o Gohort 2018 a gofrestrwyd cyn cyfres arholiadau Mehefin 2018) yn erbyn y rhai nad oeddent wedi cofrestru ymgeiswyr yn gynnar (a ddiffinnir fel llai na 10 ymgeisydd o Gohort 2018 a gofrestrwyd cyn Mehefin 2018[13]).

Dengys Ffigurau 9.1 i 9.4 wasgariad amrywiad canolfannau ar sail gradd orau ar gyfer Cohort 2018 o gymharu â Chohort 2017 ar raddau A*-A ac A*-C, yn ôl arfer cofrestru'r ganolfan. Y pwynt allweddol yma yw bod y gwasgariadau ar gyfer y gwahanol arferion cofrestru ar y graddau hyn yn edrych yn debyg. Mae'r gwasgariadau ar gyfer graddau A*-C yn dangos rhywfaint o newid rhwng arferion cofrestru, ond o edrych yn fanylach dangosir hefyd fod gwasgariad yr amrywiad yn eithaf llydan ar gyfer y ddau arfer cofrestru, a bod y gwasgariadau yn gorgyffwrdd. Hynny yw, mae'r ddau fath o arfer cofrestru weithiau yn arwain at ganlyniadau gwaeth ac weithiau at ganlyniadau gwell ar bob gradd.

[13] Dewiswyd y diffiniad hwn am fod arferion cofrestru cynnar mewn canolfannau yn tueddu i gynnwys llawer mwy na 10 o ymgeiswyr. Mae'r dull hwn hefyd yn rhoi sampl fwy o faint yn y categori 'ddim wedi cofrestru'n gynnar' at ddibenion dadansoddi.

Ffigur 9.1 Amrywiad canolfannau, Cohort 2018 o gymharu â Chohort 2017 ar gyfer graddau A*-C, yn ôl arfer cofrestru.



Ffigur 9.2 Blwchblot o'r Amrywiad Canolfannau ar raddau A*-C yn ôl arferion cofrestru.



Ffigur 9.3 Amrywiad canolfannau, Cohort 2018 o gymharu â Chohort 2017 ar gyfer graddau A*-A, yn ôl arfer cofrestru



Ffigur 9.4 Blwchblot o'r amrywiad canolfannau ar radd A*-A yn ôl arferion cofrestru.



Mae Tabl 9.8 yn rhoi ystadegau cryno sy'n disgrifio'r gwasgariadau hyn (rhesi 'N' i 'Cwrtosis') yn ogystal â chanlyniadau (o ran gwerthoedd-p) profion ystadegol.

Mae'r ystadegau cryno yn nhabl 9.8 yn dangos bod y canolfannau na wnaethant gofrestru ymgeiswyr yn gynnar wedi gweld gwelliant o 1.1 pwynt canrannol yn eu canlyniadau A*, ar gyfartaledd, o gymharu â gostyngiad o 0.3 pwynt canrannol ar

gyfer y canolfannau a gofrestrodd ymgeiswyr yn gynnar. Fodd bynnag, ar A*-C, mae'r patrwm hwn wedi'i wrthdroi, wrth i'r canolfannau na wnaethant gofrestru ymgeiswyr yn gynnar weld gostyngiad o 4.0 pwynt canrannol, ar gyfartaledd, o gymharu â chynnydd o 0.5 pwynt canrannol ar gyfer y canolfannau a gofrestrodd ymgeiswyr yn gynnar. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu damcaniaeth bod perthynas wahanol rhwng arferion cofrestru cynnar a lluosog canolfannau a chanlyniadau gradd orau cyffredinol rhwng y graddau. Yn fwy penodol, fod cofrestru cynnar a lluosog yn gysylltiedig â chanlyniadau gwaeth ar A*-A ond canlyniadau gwell ar A*-C ac A*-F.

Fodd bynnag, mae amrywiadau mawr yn y newidiadau cyfartalog hyn (fel y'u mesurir yn ôl y gwyriad safonol a'r amrediad rhyngchwartel). Felly, er mwyn asesu pa mor gadarn yw'r dystiolaeth o berthynas rhwng arfer cofrestru a newidiadau mewn canlyniadau ar lefel canolfan, cynhaliwyd profion arwyddocâd ystadegol[14] gennym. Mae'r profion hyn yn helpu i ganfod a allai'r gwahaniaethau fod wedi codi ar hap.

Mae canlyniadau'r profion hyn yn dangos bod tystiolaeth ystadegol yn cadarnhau'r patrymau a welwyd yn y newidiadau cyfartalog cymedrig. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ystadegol yn wannach ar raddau A*-A nag mewn mannau eraill, a allai awgrymu perthynas fwy anghyson rhwng arferion cofrestru a chanlyniadau ar raddau A*-A. Er bod y dadansoddiad hwn yn rhoi tystiolaeth bod arfer cofrestru yn cael effeithiau gwahanol ar bwyntiau gwahanol yng ngwasgariad graddau, nid yw'n dangos tystiolaeth ystadegol bod ymgeiswyr yn cael mantais nac anfantais gyson yn ôl arfer cofrestru ar draws gwasgariad y graddau.

[14] Er mwyn canfod y dull mwyaf dilys o brofi, profwyd gwasgariadau amrywiad canolfannau i weld pa mor 'normal' oeddent. Mae canlyniadau prawf 'Shapiro-Wilk', yn ogystal â'r ystadegau sgiwedd a chwrtosis, yn rhoi tystiolaeth gadarn nad yw'r data ar yr amrywiad canolfannau wedi'u gwasgaru'n normal O ystyried hyn, cynhaliwyd prawf amharametrig (Mann-Whitney).

Tabl 9.8 Ystadegau cryno a phrofion ystadegol yn ôl gradd a chofrestriad.

	Cynn-ar	A* Ddim yn Gynn-ar	Cyfan-swm	Cynn-ar	A*-A Ddim yn Gynn-ar	Cyfan-swm	Cynn-ar	A*-C Ddim yn Gynn-ar	Cyfan-swm	Cynn-ar	A*-F Ddim yn Gynn-ar	Cyfan-swm
N	160	100	260	160	100	260	160	100	260	160	100	260
Chwartel Isaf	-1.8	0.0	-1.1	-4.5	-1.3	-3.7	-5.3	-11.9	-7.4	-1.1	-4.8	-1.9
Canolrif	-0.1	0.0	0.0	-0.8	0.0	0.0	0.3	-6.4	-1.4	0.1	-0.2	0.0
Cymedr	-0.3	1.1	0.2	-1.3	-0.4	-0.9	0.5	-4.0	-1.2	0.4	-3.5	-1.1
Chwartel Uchaf	0.7	1.1	0.8	1.7	1.4	1.6	5.4	0.0	4.3	1.6	0.8	1.4
Gwyriad Safonol	2.3	5.1	3.7	4.7	8.3	6.3	7.5	21.5	14.6	3.6	18.5	11.8
Sgiwedd	0.3	3.7	4.2	-0.3	-1.8	-1.5	0.4	0.5	0.2	2.4	-1.4	-2.5
Cwrtosis	1.4	19.1	32.1	-0.1	14.9	17.7	0.0	8.7	17.8	15.1	7.5	22.6
Shapiro-Wilk	<0.01	<0.01	<0.01	0.51	<0.01	<0.01	0.1	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01
Mann-Whitney			<0.01			0.05			<0.01			<0.01

Talgrynnwyd y rhifau i'r pump agosaf.

O ystyried y pryderon a fynegwyd yn rhanbarthol, dengys Tabl 9.9 yr un data ar yr amrywiad canolfannau gyda dadansoddiad yn ôl y pedair ardal consortiwm rhanbarthol yng Nghymru. Mae'r berthynas rhwng arfer cofrestru a chanlyniadau yn amrywio rhwng y rhanbarthau ac ar wahanol raddau. Mae'r berthynas anghyson hon rhwng arfer cofrestru a newidiadau mewn canlyniadau ar lefel canolfan yn awgrymu bod ffactorau eraill, yn ogystal ag arfer cofrestru, hefyd yn dylanwadu ar ganlyniadau ar lefel canolfan. Fodd bynnag, dylid nodi bod yr amrywiad ar draws canolfannau, fel y'i mesurir yn ôl y gwyriad safonol, yn fawr mewn rhai achosion, a hynny oherwydd meintiau bach samplau mewn rhai o'r categorïau, yn ogystal ag amrywiad mewn canlyniadau rhwng canolfannau.

Tabl 9.9 Amrywiad canolfannau o ran canlyniadau gradd orau ar gyfer Cohort Haf 2018, yn ôl arfer cofrestru o fewn ardal consortiwm.

Consortiwm	Cofrestru	N	A*		A*-A		A*-C		A*-F	
			Cym-edr	Gwyr-iad Safon-ol	Cym-edr	Gwyr-iad Safon-ol	Cym-edr	Gwyr-iad Safon-ol	Cym-edr	Gwyr-iad Safon-ol
1	Cynnar	50	0.4	2.4	0.0	3.9	3.7	7.9	1.5	4.6
	Ddim yn Gynnar	20	0.7	4.0	0.4	5.3	-2.3	11.2	0.1	20.6
	Pob ymgeis-ydd	65	0.5	2.9	0.1	4.4	2.0	9.3	1.1	11.7
2	Cynnar	55	-1.0	2.2	-2.0	5.1	0.9	6.6	0.3	1.8
	Ddim yn Gynnar	25	3.2	7.3	0.9	9.1	-0.3	25.7	-8.8	24.4
	Pob ymgeis-ydd	80	0.3	4.8	-1.1	6.7	0.5	15.0	-2.4	14.0
3	Cynnar	25	-0.1	2.4	-2.1	4.5	-3.1	5.6	-0.7	2.7
	Ddim yn Gynnar	40	0.0	1.8	-0.2	6.0	-6.2	25.8	0.1	12.0
	Pob ymgeis-ydd	65	0.0	2.1	-1.0	5.5	-4.9	20.1	-0.2	9.4
4	Cynnar	30	-0.6	1.7	-1.5	4.4	-2.2	7.2	-0.1	4.1
	Ddim yn Gynnar	10	-0.2	3.3	-0.5	4.6	-5.2	7.2	-8.2	14.9
	Pob ymgeis-ydd	40	-0.5	2.3	-1.2	4.4	-3.0	7.3	-2.4	9.4
Pob ymgeisydd	Cynnar	160	-0.3	0.0	-1.3	4.6	0.5	7.4	0.4	3.6
	Ddim yn Gynnar	95	1.1	0.0	-0.3	8.2	-4.0	21.4	-3.5	18.4
	Pob ymgeis-ydd	255	0.2	3.7	-0.9	6.2	-1.2	14.6	-1.1	11.8

Talgrynnwyd y rhifau i'r pump agosaf.

Cynhaliwyd dadansoddiad yn debyg i Tabl 9.9 yn ôl awdurdod lleol hefyd. Canolbwyntiodd y dadansoddiad ar gymharu amrywiad cyfartalog canolfannau ar raddau A*-C mewn canolfannau a gofrestrodd ymgeiswyr yn gynnar â chanolfannau na wnaethant gofrestru ymgeiswyr yn gynnar. Nid ydym wedi cyflwyno'r dadansoddiad hwnnw yn llawn yn yr adroddiad hwn am fod meintiau bach samplau

mewn rhai categorïau wedi codi pryderon ynghylch dibynadwyedd yr ystadegau ac efallai y byddai wedi bod yn bosibl adnabod canolfannau unigol.

10. Casgliadau

Ein prif resymau dros sefydlu'r adolygiad hwn oedd ymchwilio i'r canlynol:

- p'un a oedd y safonau ar gyfer y cymhwyster wedi cael eu cynnal yn unol â'r gyfres flaenorol o arholiadau.

- p'un a oedd y myfyrwyr a safodd y cymhwyster am y tro cyntaf yn 2018 wedi cael eu rhoi o dan anfantais annheg o'u cymharu â'r rhai a safodd y cymhwyster yn 2017.

Ar ôl adolygu dyfarniad yr haf hwn, down i'r casgliad:

- **bod y safon genedlaethol ar gyfer TGAU Saesneg Iaith wedi cael ei chynnal yn ystod dyfarniad haf 2018.**
    - Pennwyd ffiniau graddau gan uwch arholwyr yn seiliedig ar adolygiad gofalus o waith myfyrwyr.
    - Roedd y canlyniadau ar gyfer myfyrwyr 16 oed yn unol â'r canlyniadau a ragfynegwyd drwy ddadansoddiad ystadegol.
    - Ar lefel canolfan, mae'n arferol i ganlyniadau amrywio o un flwyddyn i'r llall. Roedd canlyniadau ar lefel canolfan yn amrywio yn 2018 ar raddfa debyg i 2017.

- **nid oes unrhyw dystiolaeth bod dyfarniad TGAU Saesneg Iaith yn haf 2018 wedi rhoi myfyrwyr a oedd yn sefyll y cymhwyster am y tro cyntaf o dan anfantais o'u cymharu â'r rhai a safodd y cymhwyster yn 2017.**

- **rydym yn hyderus bod cyflawniadau myfyrwyr wedi cael eu cydnabod yn deg. Gall defnyddwyr ddibynnu ar y ffaith bod y graddau a ddyfarnwyd yn haf 2018 yn cyfateb i'r rhai a ddyfarnwyd yn 2017.**

Nid oes unrhyw sail dros ailystyried dyfarniad TGAU Saesneg Iaith ar gyfer haf 2018.

Roedd llawer o'r pryderon a godwyd ynglŷn â dyfarniad TGAU Saesneg Iaith yr haf hwn yn seiliedig ar farn bod penderfyniadau canolfannau ynghylch pryd i gofrestru myfyrwyr ar gyfer arholiadau wedi effeithio ar eu canlyniadau. Yn benodol, roedd pryderon bod canlyniadau canolfannau nad oeddent wedi cofrestru myfyrwyr tan fis Mehefin 2018 yn is na'r disgwyl ac yn is na'r canolfannau hynny a oedd wedi cofrestru myfyrwyr yn gynnar a mwy nag unwaith.

Er mwyn ymchwilio i'r pryderon hyn, dadansoddwyd y canlyniadau yn ôl arfer cofrestru ar lefel canolfan.

Gwelsom fod tystiolaeth o berthynas ystadegol rhwng arfer cofrestru canolfannau a chanlyniadau. Fodd bynnag:

- **Mae'r berthynas yn wahanol rhwng y graddau.** Ar gyfartaledd, mae gan ganolfannau sy'n cofrestru myfyrwyr yn gynnar a/neu dro ar ôl tro ganlyniadau ychydig yn is ar raddau A* ac A, a chanlyniadau ychydig yn uwch ar radd C.

- **Nid yw'r berthynas â chanlyniadau yn gyson, hyd yn oed ar gyfer canolfannau a oedd yn defnyddio strategaethau cofrestru tebyg.** Roedd gan rai canolfannau a oedd wedi defnyddio strategaethau cofrestru cynnar a lluosog ganlyniadau uwch ond roedd gan eraill ganlyniadau is. Roedd yr un peth yn wir am ganolfannau a oedd wedi cofrestru eu hymgeiswyr ar ddiwedd Blwyddyn 11.

- Mae'r berthynas anghyson hon rhwng arfer cofrestru a newidiadau mewn canlyniadau ar lefel canolfan yn awgrymu bod **ffactorau eraill, yn ogystal ag arfer cofrestru, hefyd yn dylanwadu ar ganlyniadau ar lefel canolfan.**

Efallai y bydd ein hymchwil i gofrestru cynnar a lluosog yn cynnig rhywfaint o ddealltwriaeth o'r berthynas ystadegol rhwng arferion cofrestru a newidiadau cyfartalog mewn canlyniadau ar lefel canolfan ar raddau A* ac C. Gwyddom fod canolfannau yn aml yn defnyddio strategaethau cofrestru er mwyn sicrhau bod cynifer o fyfyrwyr â phosibl yn ennill gradd C. Gwyddom hefyd nad yw rhai myfyrwyr sy'n ennill gradd C neu radd uwch mewn ymgais gynnar yn dychwelyd i geisio gwella eu gradd, neu os ydynt yn gwneud hynny, mae ganddynt lai o gymhelliant dros wneud hynny.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth bod y berthynas hon o ganlyniad i gymhwyso safonau anghyson ar draws cyfresi arholiadau gwahanol. Yr hyn y mae'r canfyddiad hwn yn ei awgrymu yw nad yw'r gwahaniaethau na'r newidiadau sylweddol yn strategaethau cofrestru canolfannau dros y blynyddoedd diwethaf yn yn sicrhau tegwch i bawb.

11. Edrych ymlaen

Mae'r ffordd y caiff cymwysterau TGAU eu dyfarnu yn gymhleth ac mae'n anodd ei hesbonio'n syml.

Mae cynnal safonau TGAU Saesneg Iaith eleni wedi bod yn heriol, a hynny yn bennaf oherwydd y cymhlethdodau yn sgil y cyfleoedd cofrestru cynnar a lluosog. Fel y nodwyd gennym y llynedd, credwn fod y defnydd eang o gofrestru cynnar a lluosog ar gyfer TGAU yn peri risg i fyfyrwyr ac i'r system. Yn yr adolygiad hwn, rydym wedi gweld sut mae'n methu â rhoi chwarae teg i fyfyrwyr ac yn tanseilio hyder yn y system gymwysterau.

Mae'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i annog canolfannau i beidio â chofrestru myfyrwyr yn gynnar ar raddfa eang wedi helpu i ostwng y lefelau cofrestru cynnar a welsom yr haf hwn yn sylweddol. Rydym yn croesawu'r datblygiadau hyn gan eu bod yn debygol o arwain at ganlyniadau mwy sefydlog yn y dyfodol a fydd yn helpu i sicrhau safonau ac, yn bwysicaf oll, i sicrhau chwarae teg, i bob myfyriwr a defnyddiwr cymwysterau.

Atodiad 1: Trosolwg o'r cymhwyster TGAU Saesneg Iaith newydd

Mae Uned 1 yn asesu sgiliau siarad a gwrando (y cyfeirio atynt fel llafaredd). Caiff yr uned hon ei hasesu drwy ddwy dasg ymarferol sy'n cael eu cyflawni gan y myfyrwyr yn ystod y cwrs a'u marcio gan athrawon. Caiff pob tasg ei marcio allan o 40. Caiff marciau athrawon eu safoni rhwng athrawon o fewn yr ysgol a'u cymedroli'n allanol gan CBAC.

Mae un dasg yn gofyn i bob myfyriwr roi cyflwyniad yr ymchwiliwyd iddo. Y dasg arall yw cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp strwythuredig â chyd-fyfyrwyr. Mae'n rhaid i'r tasgau gael eu cofnodi'n electronig i'w gwneud yn bosibl i'r prosesau safoni a monitro gael eu cynnal wedyn. Mae Unedau 2 a 3 yn asesu sgiliau darllen ac ysgrifennu. Mae pob uned yn canolbwyntio ar fathau gwahanol o ysgrifennu. Mae Uned 2 yn canolbwyntio ar ddisgrifio, adrodd ac egluro, ac mae Uned 3 yn canolbwyntio ar ddadlau, darbwyllo ac ysgrifennu cyfarwyddiadol. Caiff Uned 2 ac Uned 3 eu hasesu drwy arholiad dwy awr a chaiff y ddwy uned eu marcio allan o gyfanswm o 80 o farciau.

Mae pob arholiad wedi'i rannu'n ddwy ran, a chaiff pob un ei marcio allan o 40. Mae rhan gyntaf pob arholiad yn asesu sgiliau darllen ymgeiswyr ac mae'r ail ran yn asesu eu sgiliau ysgrifennu. Ar gyfer pob un o'r tasgau ysgrifennu, caiff hanner y marciau eu dyfarnu am y ffordd y mae ymgeiswyr yn cyfleu ac yn trefnu eu meddyliau, a chaiff yr hanner arall eu dyfarnu am ba mor gywir y maent yn ysgrifennu, gan gynnwys eu defnydd o ramadeg, atalnodi a sillafu. Mae Uned 2 hefyd yn cynnwys tasg prawf-ddarllen ac mae'n ofynnol i ymgeiswyr brawf-ddarllen a chywiro testun byr. Mae'r dasg hon yn cyfrannu 2.5% tuag at y radd derfynol.

Mae manyleb y cymhwyster ar gael ar wefan CBAC.

Atodiad 2: Canlyniadau cymaradwy

Mae rheoleiddwyr cymwysterau'r DU wedi defnyddio'r dull canlyniadau cymaradwy ers sawl blwyddyn fel y brif ffordd o atal graddau rhag codi dros amser.

Fodd bynnag, prif nod y dull yw diogelu myfyrwyr er mwyn sicrhau nad ydynt o dan anfantais annheg fel y cyntaf i sefyll cymwysterau newydd. Mae hyn yn golygu, os bydd y cohort cenedlaethol, hynny yw, pob myfyriwr sy'n sefyll cymhwyster, yn debyg i gohort y flwyddyn flaenorol, y byddwn yn disgwyl i'r canlyniadau ar lefel genedlaethol fod yn debyg eleni. Mae'r dull canlyniadau cymaradwy hwn yn ddull sydd wedi profi ei werth, ac mae byrddau arholi wedi ei ddefnyddio'n flaenorol yn llwyddiannus i gynnal safonau pan fydd cymhwyster yn newid.

Os nad yw cohort wedi newid ryw lawer, yna ni fyddem yn disgwyl i'r canlyniadau newid ryw lawer ychwaith. Pan fydd cymwysterau newydd yn cael eu cyflwyno, mae'n arfer sefydledig i flaenoriaethu canlyniadau cymaradwy dros berfformiad cymaradwy. Pe bai'r dyfarniadau yn seiliedig ar farnu perfformiad, gallai myfyrwyr fod o dan anfantais oherwydd eu bod yn debygol o ennill marciau is am eu bod yn anghyfarwydd â'r arholiadau newydd. Nod y dull canlyniadau cymaradwy yw y dylai myfyrwyr cyntaf i sefyll yr arholiadau newydd hyn gael graddau y byddent wedi'u cael pe baent wedi sefyll yr hen arholiadau.

Yn y bôn, mae'r dull canlyniadau cymaradwy yn gwneud iawn am ostyngiad bach tebygol mewn perfformiad pan gaiff cymwysterau newydd eu cyflwyno. Mae'r dull hwn hefyd yn helpu i wneud iawn am y fantais gymharol i gohortau diweddarach dros y myfyrwyr cyntaf i sefyll cymhwyster.

Atodiad 3: Ffiniau graddau

Ffin gradd yw'r marc lleiaf sydd ei angen ar gyfer gradd benodol. Ar gyfer y rhan fwyaf o gymwysterau TGAU, y ffiniau gradd a bennir ar sail barn yw A, C ac F. Caiff y rhain eu pennu gan y pwyllgor dyfarnu drwy ddefnyddio'r dystiolaeth feintiol ac ansoddol sydd ar gael iddo. Caiff ffiniau graddau eraill eu cyfrifo yn seiliedig ar y ffiniau gradd ar sail barn sydd eisoes wedi'u pennu. Ceir rhagor o fanylion yn ein dogfen reoleiddio *Gofynion ar gyfer gosod lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer cymwysterau TAG a TGAU*[15].

Enghraifft:

Os bydd dyfarnwyr yn pennu ffin A ar 70, C ar 54 ac F ar 33, yna bydd ffin B hanner ffordd rhwng A ac C, sef 62 yn yr achos hwn. Mae ffiniau D ac E wedi'u pennu'n gyfartal rhwng D ac F, sef 47 a 40 yn yr enghraifft hon. Mae ffin A*[16] wedi'i phennu ar yr un pellter uwchlaw A ag y mae B islaw A, sef 78 yn yr enghraifft hon. Mae ffin G wedi'i phennu ar yr un pellter islaw F ag y mae E uwchlaw F, sef 26 yn yr enghraifft hon.

Gradd	A*	A	B	C	D	E	F	G
Marc	78	70	62	54	47	40	33	26

[15] https://www.qualificationswales.org/english/publications/requirements-for-setting-specified-levels-of-attainment-for-gce-and-gcse-qualificationspdf/

[16] Ceir rhagor o reolau ynglŷn â ffin A*/A a nodir yn ein dogfen reoleiddio Gofynion a grybwyllir uchod.

Atodiad 4: Effaith 'sawtooth'

Pan gaiff cymwysterau newydd eu cyflwyno, mae myfyrwyr sy'n sefyll yr arholiadau yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf yn debygol o ennill marciau is na myfyrwyr a safodd gymwysterau sefydledig mewn blynyddoedd blaenorol ac a oedd yn fwy cyfarwydd â'r arholiadau. Wedyn, bydd perfformiad yn gwella dros amser wrth i fyfyrwyr ddod yn fwy cyfarwydd â'r cymhwyster newydd. Gelwir y patrwm newid hwn a achosir gan ddiwygiadau i'r broses asesu yn effaith 'sawtooth'. Yn benodol, pan fydd asesiadau lle mae llawer yn y fantol yn cael eu diwygio, ceir effaith andwyol ar berfformiad yn yr asesiadau hynny yn aml, ond wedyn gwelir perfformiad gwell dros amser wrth i fyfyrwyr ac athrawon ddod yn gyfarwydd â'r prawf newydd.

Yn ymarferol, rydym yn gofyn i fyrddau arholi addasu ffiniau graddau i wneud iawn am effaith 'sawtooth'. Pan fydd ffiniau graddau yn cael eu pennu, caiff tystiolaeth ei hystyried i weld a oes angen addasu er mwyn caniatáu ar gyfer yr effaith hon. Pan geir tystiolaeth sy'n cefnogi presenoldeb effaith 'sawtooth', mae ffiniau graddau yn debygol o gael eu gostwng er mwyn gwneud iawn am y gostyngiad ym mherfformiad y myfyrwyr hynny sy'n sefyll cymwysterau newydd. Wrth i gymwysterau ymsefydlu, mae perfformiad mewn arholiadau yn tueddu i wella. Nid yw hyn yn digwydd o reidrwydd i'r un graddau ym mhob gradd. Mae'n fwy tebygol o ddigwydd am fod ymgeiswyr yn dechrau ennill marciau gwell am gwestiynau symlach a haws eu deall.

Mae'r effaith hon yn un ddealladwy. Gyda phob cyfres o arholiadau, bydd mwy o hen bapurau arholiad a chynlluniau marcio ar gael, ynghyd â deunyddiau enghreifftiol sy'n seiliedig ar waith gwirioneddol myfyrwyr, ac adroddiadau arholwyr sy'n esbonio sut roedd myfyrwyr wedi perfformio ym mhob cwestiwn a maes pwnc. Hynny yw, daw athrawon yn fwy cyfarwydd â'r ffordd y caiff y cymhwyster ei asesu, a chaiff myfyrwyr fwy o gyfleoedd i ymarfer gyda hen bapurau. Er mwyn sicrhau na chaiff myfyrwyr mewn cohortau diweddarach fantais annheg o'u cymharu â myfyrwyr sy'n sefyll eu harholiadau pan fydd cymhwyster yn cael ei gyflwyno am y tro cyntaf, mae ffiniau graddau yn debygol o godi, er mwyn gwneud iawn am y gwelliant mewn perfformiad oherwydd ymgyfarwyddo, yn hytrach na thystiolaeth o welliannau gwirioneddol mewn cyrhaeddiad.

Mae Ofqual wedi gwneud ychydig o waith ymchwil i effaith 'sawtooth' mewn asesiadau TGAU ac UG a Safon Uwch, sydd i'w weld yn: https://www.gov.uk/government/publications/investigation-into-the-sawtooth-effect-in-gcses-as-and-a-levels

Atodiad 5: Methodoleg rhagfynegi ystadegol

Rhagfynegiadau Canolfannau Cyffredin

Defnyddir rhagfynegiadau ystadegol yn seiliedig ar gyrhaeddiad blaenorol ar gyfer dyfarnu cymwysterau TGAU a Safon Uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Yng Nghymru, defnyddir rhagfynegiadau 'Canolfannau Cyffredin' ar gyfer cymwysterau TGAU fel arfer. Mae Canolfannau Cyffredin yn rhagfynegi canlyniadau'r ymgeiswyr presennol mewn pwnc gan ddefnyddio'r canlyniadau a enillwyd gan ymgeiswyr blaenorol yn yr un pwnc mewn 'blwyddyn gyfeirio', a defnyddio canolfannau a gofrestrodd ymgeiswyr yn y ddwy gyfres. Tybir y bydd unrhyw ffactorau sy'n arwain at set o ganlyniadau mwy cadarnhaol neu negyddol mewn canolfannau unigol (o gymharu â'r flwyddyn gyfeirio) yn 'cyfartaleddu' i lunio rhagfynegiad cywir ar lefel genedlaethol.

Yna, caiff canlyniadau 'ymgeiswyr wedi'u paru', sef y cofrestriadau o'r canolfannau cyffredin yn y gyfres bresennol, eu cymharu â'r canlyniadau a ragfynegwyd. Mae'r rheolau rheoleiddio yn nodi ein bod yn gofyn am fwy o gyfiawnhad dros ganlyniadau gwirioneddol sydd y tu allan i'r goddefiannau a bennir ar sail y canlyniadau a ragfynegwyd ar gyfer yr ymgeiswyr hyn.

Mae ffactorau megis dyfarnu manyleb newydd am y tro cyntaf a newidiadau mawr mewn ymddygiad cofrestru yn golygu bod angen ystyried y dull rhagfynegi mwyaf priodol er mwyn tywys y broses ddyfarnu a chynnal safonau dros amser.

Rhagfynegiadau ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg yng Nghymru

Roedd y dull rhagfynegi ar gyfer y cymwysterau TGAU diwygiedig mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg yng Nghymru ym mis Mehefin 2018 yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd ym mis Mehefin 2017 i reoli'r broses o drosglwyddo'r safon o'r cymwysterau etifeddol. Roedd y dull ym mis Mehefin 2017 yn defnyddio rhagfynegiadau gradd orau ar gyfer canolfannau cyffredin, a ddewiswyd er mwyn sicrhau bod safon genedlaethol yn cael ei throsglwyddo yng nghyd-destun cofrestru cynnar a lluosog yn y cymwysterau etifeddol.

Yn ystod paratoadau ar gyfer cyfres Mehefin 2018, ystyriwyd a oedd y dull rhagfynegi ar sail gradd orau yn dal i fod yn briodol o ystyried faint o gofrestru cynnar a lluosog a gafwyd yng Nghohort 2018.

Yn achos cymhwyster TGAU Saesneg Iaith diwygiedig, roedd y ddau gohort o fyfyrwyr 16 oed a gwblhaodd Flwyddyn 11 erbyn mis Mehefin 2018 wedi profi patrymau cofrestru gwahanol iawn:

Cohort 2017: myfyrwyr 16 oed yn ystod cyfres Mehefin 2017. Dim ond unwaith y gallai'r ymgeiswyr hyn gofrestru ar gyfer y cymhwyster TGAU diwygiedig (yng nghyfres Mehefin 2017) erbyn diwedd Blwyddyn 11, gan mai hwn oedd y tro cyntaf i'r cymhwyster gael ei ddyfarnu. Felly, y 'graddau gorau' a enillwyd gan y cohort hwn yn y cymhwyster Saesneg Iaith diwygiedig oedd y graddau cyntaf a enillwyd ganddynt hefyd.

Cohort 2018: myfyrwyr 16 oed yn ystod cyfres Mehefin 2018. Gallai'r ymgeiswyr hynny a gofrestru hyd at deirgwaith erbyn diwedd Blwyddyn 11: Yng nghyfres mis Mehefin 2017 (pan oeddent ym Mlwyddyn 10), fel ymgeiswyr yn ailsefyll yng nghyfres mis Tachwedd 2017 (os oeddent wedi sefyll ym mis Mehefin 2017), ac yng nghyfres mis Mehefin 2018.

Gwnaethom ddewis parhau â'r dull rhagfynegi ar sail 'gradd orau' canolfannau cyffredin cyson ar gyfer pob un o'r cymwysterau TGAU diwygiedig mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg. Cafodd hyn ei gynnwys yn y ddogfen Cyfnewid Data ar gyfer cyfres Haf 2018 fel a ganlyn:

> *Ar gyfer pob manyleb mae'n rhaid i CBAC lunio rhagfynegiadau ar gyfer cohort Cymru o fyfyrwyr cyfnewid 16 oed wedi'u paru. Mae'n rhaid i'r rhagfynegiadau fod yn seiliedig ar y data o ddadansoddiad canolfannau cyffredin o'r radd orau a enillwyd gan ymgeiswyr o gyfres Tachwedd 2015 i haf 2017 (fel y bo'n gymwys) a'u cymhwyso at y canlyniadau cyfun ar gyfer cohortau Tachwedd 2016 i haf 2018 (fel y bo'n gymwys).*

Yn ein barn ni, dull rhagfynegi gradd orau cyson fyddai'r ffordd fwyaf priodol o sicrhau y byddai safon genedlaethol gymaradwy yn parhau. Llywiwyd y penderfyniad hwn gan yr arfer cofrestru cynnar a lluosog amrywiol rhwng ac o fewn canolfannau, yn ogystal â'r cyfrannau bach o fyfyrwyr 16 oed yng Nghohort 2018 a oedd yn sefyll am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2018 (dim ond 30.1% yn y cymhwyster TGAU Saesneg Iaith).

Y camau yn y dull Canolfannau Cyffredin a gymhwyswyd at gymwysterau TGAU diwygiedig mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg yw:

- Cyfrifo'r radd orau a enillwyd gan bob ymgeisydd sy'n 16 oed ym mis Mehefin 2017, heb gynnwys absenoldebau rhannol[17];
- Cyfrifo'r gwasgariad gradd cronnus ar gyfer pob canolfan gyffredin (canolfannau sydd wedi cofrestru ymgeiswyr yn y ddwy gyfres);
- Ar gyfer pob canolfan gyffredin, defnyddio'r gwasgariad gradd cronnol a nifer yr ymgeiswyr sy'n 16 oed ym mis Mehefin 2018 yn y ganolfan honno er mwyn cyfrifo'r niferoedd disgwyliedig o ymgeiswyr sy'n ennill pob gradd;
- Symio'r niferoedd disgwyliedig o ymgeiswyr sy'n ennill pob gradd ym mhob canolfan gyffredin er mwyn cael y nifer ddisgwyliedig o ymgeiswyr sy'n ennill pob gradd ar lefel genedlaethol;
- Defnyddio cyfanswm nifer yr ymgeiswyr a gofrestrwyd sy'n 16 oed ym mis Mehefin 2018 er mwyn cyfrifo'r gwasgariad gradd cronnus ar sail canran. Er mwyn penderfynu a oedd y dyfarniad y tu allan i'r goddefiant, cafodd y canlyniadau hyn a ragfynegwyd eu cymharu â'r canlyniadau gradd orau a enillwyd gan Gohort Mehefin 2018 o blith holl ymgeisiau eu cofrestriadau blaenorol.

[17] Ymgeiswyr a enillodd radd ond na safasant bob un o'r unedau ar gyfer y cymhwyster. Mae'r rhagfynegiadau yn seiliedig ar ymgeiswyr a safodd bob un o'r asesiadau yn y flwyddyn gyfeirio yn unig.

Atodiad 6: Rhestr Termau

Arholwyr – Unigolion ag arbenigedd pwnc sy'n gyfrifol am farcio atebion ymgeiswyr.
Asesiad o dan reolaeth – Asesiadau sy'n cael eu sefyll o dan reolaeth/goruchwyliaeth, ond nid o dan 'amodau arholiad' o reidrwydd.
Asesu – Gwerthuso, profi, mesur a/neu ddogfennu gwybodaeth, sgiliau neu ddealltwriaeth.
Bwrdd arholi – A elwir yn sefydliad dyfarnu neu'n gorff dyfarnu hefyd. Sefydliad a gydnabyddir gennym at ddiben dyfarnu cymwysterau rheoleiddiedig, megis CBAC.
Cadeirydd yr Arholwyr – Unigolyn sy'n atebol i'r corff dyfarnu am gynnal safonau mewn cymhwyster o flwyddyn i flwyddyn.
Canlyniadau cymaradwy – Y prif ddull o atal amrywiad annheg wrth ddyfarnu safonau ar lefel genedlaethol. Mae'n cynnwys craffu ar waith myfyrwyr a defnyddio tystiolaeth ystadegol mewn cohort i gyfrifo unrhyw addasiadau angenrheidiol i ffiniau graddau. Esbonnir hyn yn fanylach yn Atodiad 2.
Canolfan - Sefydliad (megis ysgol, coleg neu ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith) sy'n cofrestru ymgeiswyr ar gyfer cymwysterau a/neu'n cyflwyno asesiadau ar ran corff dyfarnu.
Canolfannau cyffredin – Canolfan sydd wedi cofrestru myfyrwyr ar gyfer pwnc ar ddwy adeg wahanol.
Cofrestru cynnar/lluosog – Yr arfer o gofrestru myfyrwyr yn gynnar, neu fwy nag unwaith, er mwyn iddynt ennill gradd. Mae'r diffiniad o 'cynnar' yn dibynnu ar gynllun y cymhwyster. Roedd y dadansoddiad a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn yn diffinio canolfan cofrestru cynnar fel un a gofrestrodd o leiaf 10 ymgeisydd a oedd yn 16 oed yn y flwyddyn academaidd 2017/18 cyn mis Mehefin 2018. Dewiswyd y diffiniad hwn am fod arferion cofrestru cynnar mewn canolfannau yn tueddu i gynnwys llawer mwy na 10 ymgeisydd.
Cohort – Grŵp o ymgeiswyr sy'n rhannu nodwedd ystyrlon, megis oedran, at ddibenion gweinyddol a/neu ystadegol.
Corff dyfarnu – A elwir yn fwrdd arholi hefyd. Sefydliad a gydnabyddir gennym at ddiben dyfarnu cymwysterau rheoleiddiedig, megis CBAC.
Cyfnewid Data - Dogfen reoleiddio sy'n amlinellu'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan fyrddau arholi i ddyfarnu'r cymwysterau a pha ddata y maent yn eu rhoi i ni yn ystod y gyfres o arholiadau.
Cyfres – Y cyfnod o amser pan gaiff cyfres o arholiadau eu sefyll gan yr un cohort.
Cymhwyster llinol – Lle mae pob cydran o'r arholiad yn cael ei sefyll mewn un gyfres o arholiadau, ar ddiwedd y cwrs fel arfer.

Cymwysterau TGAU diwygiedig – Mae cymwysterau TGAU mewn nifer o bynciau wedi cael eu hail-lunio a'u cyflwyno mewn tair ton, i'w haddysgu am y tro cyntaf yn 2015, 2016 a 2017.

Cynllun marcio – Cynllun sy'n rhoi manylion am y ffordd y caiff marciau eu dyfarnu o ran uned neu gydran asesu benodol; mae cynllun marcio fel arfer yn nodweddu atebion derbyniol i gwestiynau neu dasgau neu rannau o gwestiynau neu dasgau ac yn nodi faint o gredyd sydd gan bob un.

Dull canolfan gyffredin – Defnyddio cymariaethau ystadegol i ragfynegi canlyniadau arholiad tebygol o un flwyddyn i'r llall, yn seiliedig ar y dybiaeth - o ystyried popeth arall - fod canlyniadau canolfan yn annhebygol o fod yn wahanol iawn rhwng dwy flwyddyn. Esbonnir hyn yn fanylach yn Atodiad 5.

Dyfarnu – Lle caiff y marciau a roddwyd i ymgeiswyr am bob uned/cydran o gymhwyster eu troi'n raddau cyffredinol.

Effaith 'sawtooth' – Y newid mewn patrwm a achosir gan ddiwygiadau i'r broses asesu, lle mae'r myfyrwyr sy'n sefyll cymhwyster diwygiedig yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf yn debygol o ennill marciau is na myfyrwyr mewn blynyddoedd blaenorol, a oedd yn fwy cyfarwydd â'r arholiadau. Mae perfformiad mewn blynyddoedd dilynol yn debygol o wella. Caiff ffiniau graddau eu haddasu i leihau'r risg hon i'r eithaf. Esbonnir hyn yn fanylach yn Atodiad 4.

Ffin gradd – y marc lleiaf y mae angen i ymgeisydd ei ennill er mwyn cael gradd benodol am uned neu gymhwyster.

Gradd orau – y radd uchaf y mae myfyriwr yn ei chyflawni ar ôl pob ymgais

Marciau crai – Y marc y mae ymgeiswyr yn ei ennill mewn gwirionedd ar gyfer uned/cydran. Caiff y marciau crai eu troi'n farciau graddedig at ddefnydd dyfarnu.

Marciau graddedig – Troi marciau crai yn raddfa er mwyn rhoi pwys cywir ar gyfraniad uned neu gydran asesu tuag at radd gyffredinol cymhwyster. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i lunio papurau arholiad neu dasgau asesu er mwyn cael eu marcio allan o amrediad optimaidd o farciau.

Monitro – Gweithgareddau y mae Cymwysterau Cymru yn eu cyflawni er mwyn adolygu ansawdd systemau, prosesau a/neu gymwysterau corff dyfarnu.

Prif arholwr – Unigolyn sy'n atebol i gadeirydd yr arholwyr am sicrhau bod yr arholiad yn ei gyfanrwydd – gan gynnwys asesiadau mewnol ac allanol – yn bodloni gofynion y fanyleb ac yn cynnal safonau o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r prif arholwr hefyd yn gweithredu fel uwch arholwr neu gymedrolwr ar gyfer o leiaf un gydran.

Pwyllgor dyfarnu – Y grŵp o bobl sy'n gyfrifol am bennu ffiniau graddau ar gyfer arholiad neu asesiad o dan reolaeth. Mae'r grŵp yn cynnwys cadeirydd arholwyr, prif arholwr ac un uwch arholwr neu fwy. Bydd y pwyllgor hefyd yn adolygu canlyniadau gradd cyffredinol ar gyfer cymhwyster.

Swyddog Cyfrifol – Yr unigolyn ym mhob corff dyfarnu sy'n gyfrifol yn y pen draw am safonau pob arholiad a gynigir gan y corff dyfarnu hwnnw, yn unol â gofynion ein Hamodau Cydnabod Cyffredinol.

Terfynau goddefiant – Caiff y rhain eu pennu ar sail canlyniadau cymhwyster a ragfynegwyd gan ystyried nifer y cofrestriadau. Maent yn drothwy sy'n ysgogi byrddau arholi i gyflwyno tystiolaeth ychwanegol i'r rheoleiddiwr, er mwyn cyfiawnhau'r dyfarniad mewn achosion lle mae'r canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r canlyniadau a ragfynegwyd o fwy na'r goddefiant cymwys.

TGAU (Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd) – Wedi'i llunio i gael ei sefyll fel cwrs dwy flynedd gan fyfyrwyr 14–16 oed. Mae cymwysterau TGAU yn rhan o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Uwch Arholwr – Unigolyn sy'n gyfrifol am osod y papur cwestiynau neu'r dasg a safoni'r ffordd y caiff ei farcio/marcio.